| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Y Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **27 Ionawr 2020** |
| **Pwnc:** | **Papur Cynnig – Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Alwyn R Jones**<br>**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Sandra Thomas**<br>**sandrathomas@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Mae'r cynnig yn effeithio ar wasanaethau sy'n benodol i wardiau'r Aelodau canlynol:**<br>**Y Cynghorydd Bob Parry**<br>**Y Cynghorydd Dylan Rees**<br>**Y Cynghorydd Nicola Roberts**<br>**Y Cynghorydd Lewis Davies**<br>**Y Cynghorydd Carwyn Jones**<br>**Y Cynghorydd Alun Roberts**<br>**Y Cynghorydd Glyn Haynes**<br>**Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones**<br>**Y Cynghorydd Shaun Redmond**<br>**Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes**<br>**Y Cynghorydd John Arwel Roberts**<br>**Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas**<br><br>**Mae'r cynnig hefyd yn effeithio ar drigolion ym mhob ward** |

## A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau

**Rhesymau:**

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar yr amrywiol faterion mewn perthynas â chyfleoedd dydd ar yr ynys i bobl ag anabledd dysgu. Mae'n dilyn ymlaen o fabwysiadu'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd ym mis Hydref 2019. Rhoddwyd cymorth i ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr gymryd rhan yn yr ymgysylltiad ar y Strategaeth ddrafft yn ystod Ebrill a Mai 2019. Mae llawer o'u sylwadau a'u safbwyntiau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Mae swyddogion wedi ystyried dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer darparu cyfleoedd dydd ledled Ynys Môn i bobl ag anableddau dysgu. Daeth swyddogion i'r casgliad y dylid canolbwyntio ar wella gwasanaethau yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu a sicrhau bod adnoddau pwrpasol ar gael i gynorthwyo'r unigolion hynny sydd ag anghenion corfforol ac ymddygiadol mwy cymhleth. Rydym yn gobeithio ysgogi creadigrwydd ac arloesedd a fydd yn golygu y bydd modd i ni drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac ymateb i'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol heriol.

**Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn :**
1. Cefnogi mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad, y cynnig i “Ddatblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre."

2. Awdurdodi swyddogion i gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae nifer o opsiynau eraill wedi'u hystyried fel rhan o'r papur cynnig hwn. Mae'r papur cynnig yn amlinellu pedwar ar ddeg o opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried ar gyfer y pedwar gwasanaeth mewnol.

Mae'r holl opsiynau wedi'u hystyried yn erbyn yr heriau allweddol a nodwyd ar gyfer y gwasanaethau ar yr ynys sy'n cynnwys:

- Addasrwydd a hygyrchedd y canolfannau cyfredol
- Y pellteroedd y mae unigolion yn eu teithio i'r canolfannau dydd ar hyn o bryd.
- Addasrwydd a hygyrchedd y canolfannau presennol.
- Y gwahaniaeth yng nghostau uned y gwasanaethau.
- Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn disgwyl cael cyfleoedd mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar gynnydd a chyflawniad unigolion.
- Y galw a ragwelir yn y dyfodol gan gynnwys gan bobl ag anghenion mwy cymhleth.

Gan fod y cynnig hwn yn delio â chau gwasanaethau o bosib (sef Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre), mae'r papur cynnig hefyd yn amlinellu effaith cynnig o'r fath ar:

- Gyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac sy'n hyrwyddo cynnydd yr unigolyn
- Hygyrchedd gwasanaethau i unigolion â phroblemau symudedd
- Addasrwydd gwasanaethau i unigolion ag anghenion mwy cymhleth er mwyn sicrhau mwy o ddewis o weithgareddau
- Effaith ar gludiant ac amser teithio i ddefnyddwyr gwasanaeth

Mae'r papur cynnig yn amlinellu manteision ac anfanteision pob opsiwn ac yn dod i'r casgliad mai'r opsiwn a gynigir yw'r un y dylid ymgynghori arno fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol yn y dyfodol.

**Gweithredu ar y cynnig:**
Mae’n bwysig nodi os gaiff y cynnig terfynol ei gymeradwyo yn dilyn yr ymgynghoriad bydd y cynllun gweithredu yn cymryd hyd at dair i bedair blynedd i’w wireddu yn llawn.  Yn y cyfnod yna bydd angen:

| |
|---|
| • Parhau i ddatblygu cyfleoedd cymunedol ac adolygu'r fframwaith cytundebol<br>• Dylunio ac adeiladu'r estyniad yn Gors Felen.<br>• Sicrhau bod dewisiadau digonol mewn lle cyn cau unrhyw wasanaeth<br>• Cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i gysidro cyfleodd creadigol sy'n adeiladu ar eu cryfderau unigol ac yn cefnogi dilyniant.<br><br>Sylwer na fydd unigolion yn colli eu hawl i dderbyn gwasanaeth o ganlyniad i'r cynnig hwn. Be fasa'n newid ydi yn lle a sut y byddent yn derbyn y gwasanaeth. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Dirprwywyd awdurdod i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniadau mewn perthynas â gofal cymdeithasol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Mae'r gwaith yma yn cydymffurfio gyda disgwyliadau Dogfen Cyflawni Flynyddol 2019/2020, ac mae'n gweithredu un o'r agweddau sy'n gysylltiedig ag Amcan 2 yn ogystal â chydymffurfio gyda'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd a gyfeirir ato ar dudalen 1. |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Ydi |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | Byddai'r cynnig yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir cyfleoedd dydd i bobl ag anabledd dysgu ledled yr ynys ac yn sicrhau y byddai digon o gapasiti i gwrdd â'r anghenion yn awr ac i'r dyfodol.<br>Byddai hefyd yn sicrhau bod y gwasanaeth a fyddai ar ôl ac a gynigir mewn adeilad yn addas i'r diben. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau i'r awdurdod / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?:** | Byddai'r cynnig yn datblygu estyniad i'r adeilad presennol yn Gors Felen a fyddai'n gyfleuster o'r radd flaenaf gyda lle ar gyfer sesiynau galw heibio i gynnal gweithgareddau i i ddefnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Dylai defnyddwyr gwasanaeth gael budd o gyfleoedd sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo annibyniaeth a chynnydd yr unigolyn ac a fydd yn eu cefnogi ym mhob agwedd ar eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | bywydau. Byddai'r gwasanaeth newydd yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.<br><br>Byddai buddsoddiad y Cyngor trwy arian cyfalaf.<br><br>Byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'n rhaid gwneud y gwaith cynnal a chadw y mae angen ei wneud yn y tri safle a nodwyd ar gyfer eu cau a byddai'n cyfrannu at arbedion refeniw**.** |
| **3** | **A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, ac os felly, pwy oeddent?** | Ymgysylltwyd yn helaeth ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd drafft yn ystod Ebrill a Mai 2019 gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'u darparwyr gwasanaeth. Mae gwybodaeth a dderbyniwyd gan sefydliadau a rhanddeiliaid y trydydd sector wedi bod yn rhan o'r cynnig hwn.<br><br>Byddai'r rhanddeiliaid canlynol hefyd yn cael cyfle i gyfrannu yn y cam ymgynghori nesaf:<br>• Defnyddwyr gwasanaeth (pobl ag anabledd dysgu) a'u cynrychiolwyr.<br>• Teuluoedd a gofalwyr<br>• Staff canolfannau dydd ac undebau llafur<br>• Darparwyr gwasanaethau allanol a sefydliadau'r trydydd sector<br>• Grwpiau cymunedol arbenigol<br>• Aelodau Etholedig Lleol<br>• Uwch Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan o ran drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut os gwelwch yn dda: -** | Ymgysylltwyd yn helaeth ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd drafft yn ystod Ebrill a Mai 2019 gyda defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'u darparwyr gwasanaeth.<br>Gwnaed trefniadau i sicrhau hygyrchedd gyda dogfennau "hawdd eu darllen", ac roedd cymorth gan eiriolydd annibynnol ar gael i sicrhau y gallai pawb a oedd eisiau cyfrannu gymryd rhan yn effeithiol.<br>**Ymgynghoriad Rhanddeiliaid:**<br>Os cytunir, byddai ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei ymgymryd ag ef gyda'r rhanddeiliaid a effeithir arnynt. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn dilyn proses debyg i'r un a ymgymerwyd â hi yn ystod y gwaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgysylltu ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu ym Mai a Mehefin 2019. Roedd yr ymateb i'r ymgysylltiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod adnoddau'n cael eu targedu'n benodol tuag at ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd gyda'r mecanweithiau cefnogi priodol yn eu lle er mwyn galluogi cyfranogiad a dealltwriaeth.<br><br>Wrth gynllunio'r ymgynghoriad byddwn yn anelu i:<br><br>• Dawelu meddyliau rhanddeiliaid o'n bwriad i wella'r ddarpariaeth bresennol a chynyddu dewisiadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.<br>• Sicrhau bod cynigion amgen yn cael eu hegluro'n glir ac yn gyflym.<br>• Galluogi graddfa ymateb uchel i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid a effeithir arnynt gan ganolbwyntio'n benodol ar y grwpiau canlynol o bobl:<br>➢ Staff yn y canolfannau a effeithir arnynt<br>➢ Defnyddwyr Gwasanaeth<br>➢ Teuluoedd a gofalwyr<br>➢ Darparwyr gwasanaethau dydd a phartneriaid trydydd sector<br>➢ Gwasanaethau Eiriolaeth<br><br>Yn y cyfnod yma, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r staff yn yr holl ganolfannau i'w diweddaru ar y broses.  Bydd hyn yn cymryd lle gyda chefnogaeth yr Uned Adnoddau Dynol a'r undebau. |
| **5** | **Pa effaith, os o gwbl, a gaiff y penderfyniad ar yr agenda Cydraddoldebau a'r Gymraeg?** | Rhagwelir y byddai'r newidiadau hyn yn creu cyfleoedd newydd i bobl ag anableddau ac yn golygu bod gan bobl fwy o gysylltiad gyda'u cymunedau. Byddai mwy o ddewis a rheolaeth yn golygu y byddai pobl yn gallu dod o hyd i'r cyfleoedd gorau i gyflawni eu potensial. Rhoddir sylw dyladwy i anghenion ieithyddol ac rydym yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cyfathrebu â ni yn yr iaith o'u dewis.<br>Eisoes mae'n rhaid i bob darparwr (mewnol ac allanol) ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod yn ddiwylliannol sensitif. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad |
| **5** | **Eiddo** | Wedi ei ymgorffori yn yr adroddiad |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2020 i ddilyn. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Papur Cynnig Cyfleoedd Dydd - Anableddau Dysgu.  Ionawr 2020<br>Atodiad A – Map o'r gwasanaethau cyfredol<br>Atodiad B - Asesiad o'r Effaith |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu CSYM 2019-2022 |

# ‘PAPUR CYNNIG’

## Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion

## Cyfleon Dydd - Anableddau Dysgu

## Ionawr 2020

## Cynnig ar gyfer:

## Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre.

CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 3
1. PWRPAS YR ADRODDIAD ..... 3
2. CEFNDIR A GWYBODAETH ..... 5
3. Y CYNNIG ..... 8
4. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER NEWID ..... 8
5. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER NEWID YN Y GWASANAETHAU DYDD AR GYFER ANABLEDDAU DYSGU ..... 10
6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL AR GYFER Y GWASANAETHAU DYDD MEWNOL ..... 19
7. GWYBODAETH ARIANNOL ARALL ..... 30
8. CASGLIAD ..... 30

## CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae angen ail-lunio a moderneiddio'r gwasanaethau cyfleon dydd er mwyn:

- Datblygu cyfleon cynaliadwy i unigolion.
- Gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth ymhellach yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.
- Ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ynghylch sut fath o gyfleon dydd yr hoffent eu cael yn y dyfodol.
- Cwrdd ag anghenion y bobl rydym yn eu cefnogi ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.
- Cwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ffocws y cynnig yw gwella gwasanaethau yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, gan sicrhau bod adnoddau pwrpasol i gefnogi'r unigolion hynny sydd ag anghenion corfforol ac ymddygiadol mwy cymhleth.

Rydym yn gobeithio ysgogi creadigrwydd ac arloesedd a fydd yn ein galluogi i drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac i ymateb i'r cynnydd a ragwelir yn y galw am wasanaethau o fewn y cyfyngiadau ariannol heriol.

Y cynnig yw:
**Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre.**

Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu cyfleon hyblyg i bobl ag anabledd dysgu a bydd yn cwrdd â'r galw yn y dyfodol, gan gynnwys y galw gan y bobl hynny a chanddynt anghenion mwy cymhleth. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â materion mewn perthynas â:

- Y gwahaniaeth yn y costau uned ar gyfer y gwasanaethau.
- Y pellteroedd y mae unigolion yn eu teithio i'r canolfannau dydd ar hyn o bryd.
- Addasrwydd a hygyrchedd y canolfannau cyfredol
- Disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr i gael mwy o gyfleon sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n canolbwyntio ar gynnydd a chyflawniad unigolion.

Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig hwn gyda'r defnyddwyr gwasanaeth yr effeithir arnynt, eu teuluoedd, eu gofalwyr a'r staff yn y canolfannau yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2020. Cyflwynir y cynnig terfynol i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2020.

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r cynnig ar gyfer dyfodol cyfleon dydd ar gyfer anabledd dysgu yn Ynys Môn. Bydd y papur hefyd yn cyflwyno'r dewisiadau amgen rhesymol a ystyriwyd ar gyfer y gwasanaeth, yn benodol mewn perthynas â'r gwasanaethau mewnol cyfredol, a bydd yn cymryd i ystyriaeth yr ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch gwasanaethau dydd yn ystod haf 2019.

Defnyddir yr adroddiad hwn i ofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid mewn perthynas â'r cynnig.

Mae'r broses ar gyfer ysgrifennu'r adroddiad hwn wedi cynnwys:

- O dan gyfarwyddyd y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Oedolion, trefnwyd cyfres o ymweliadau â gwahanol ganolfannau dydd ar yr ynys gyda chyfleon i'r holl Aelodau Etholedig fynychu (Gorffennaf 2019).

- Cynhaliwyd ymarfer casglu data er mwyn casglu ffeithiau a ffigyrau perthnasol i gynorthwyo i gymharu'r canolfannau (Gorffennaf 2019).

- Cynhaliwyd gweithdai i werthuso'r opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer dyfodol y canolfannau dydd. Roedd swyddogion o'r Gwasanaeth Oedolion, y Gwasanaeth Cyllid a'r Uned Drawsnewid yn bresennol. (Awst - Tachwedd 2019).

- Drafftio Strategaeth newydd ar gyfer Cyfleon Dydd i Bobl ag Anabledd Dysgu, a fabwysiadwyd ar ôl ymgysylltu'n helaeth â defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr, eu teuluoedd a darparwyr gwasanaeth (Ebrill - Mai 2019). Dyma rai enghreifftiau o'u sylwadau:

*“Mae angen i mi ddysgu pethau newydd”*

*“Dwi angen pethau i'w gwneud, mwy o wasanaeth dydd, mae angen i fwy o swyddi fod ar gael"*

*““Rwy’n hoffi bod allan ac o gwmpas, yn cwrdd â phobl newydd a gwneud gwahanol swyddi y tu allan”*

*“Rwy'n gweithio yn bell o fy nghartref - hoffwn fod yn agosach”*

*“Hoffwn gael cefnogaeth i wneud gwaith gwirfoddol”*

*“Rwy'n gwneud yr un pethau drosodd a throsodd ... hoffwn gael mwy o ddewis o weithgareddau"*

*“Byddwn yn hoffi cael mwy o opsiynau am weithgareddau yn y gymuned”*

*“Hoffwn wneud mwy o bethau gyda thechnoleg”*

*“Nid oes gan yr holl gyfleon dydd ddigon o staff i helpu a hoffwn gael mwy o weithgareddau coginio, jig-so newydd, a llyfrau lliwio a mwy o dripiau dydd”*

*“Rydw i eisiau bod yn fwy annibynnol ac rydw i eisiau helpu pobl eraill"*

*“Mae angen mwy o bethau i'w gwneud yn Llangefni yn ystod y dydd”*

(= dyfyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn Ebrill a Mai 2019)

## 2. CEFNDIR A GWYBODAETH

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Anabledd Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi oedolion a chanddynt ystod o anableddau corfforol a dysgu. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cefnogi oddeutu 330 o bobl yr asesir bod ganddynt anghenion gofal a chymorth. Darperir a chomisiynir cefnogaeth mewn sawl ffordd gan gynnwys cefnogaeth i fyw gartref gyda theulu, byw â chymorth arbenigol, gofal cartref, gofal preswyl, gofal seibiant, ymyrraeth gwaith cymdeithasol, ymyriadau iechyd arbenigol a chefnogaeth uniongyrchol 1:1.

**Beth ydym ni'n ei olygu wrth y term *anabledd dysgu?***

Defnyddir y term *anabledd dysgu* i ddisgrifio unigolyn sydd:

- â gallu sylweddol llai i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, neu i ddysgu sgiliau newydd; a / neu
- llai o allu i ymdopi'n annibynnol (amhariad ar y gallu i addasu) a ddechreuodd cyn iddynt fod yn oedolyn ac sy'n cael effaith barhaol ar ddatblygiad (Adran Iechyd, 2001).

Noder os gwelwch yn dda bod gwahaniaeth rhwng *anabledd dysgu* ac *anhawster dysgu*, a ddefnyddir yn y maes addysg fel term ehangach sy'n cynnwys pobl ag anawsterau dysgu penodol fel dyslecsia (Emerson a Heslop, 2010). Mae'r papur hwn yn ymwneud â phobl ag anableddau dysgu.

**Beth ydym yn ei olygu wrth y term *anableddau dysgu dwys a lluosog* (ADDLl)?**

Defnyddir y term *anableddau dysgu dwys a lluosog* (ADDLl) i ddisgrifio pobl â mwy nag un amhariad, gan gynnwys amhariad deallusol dwys (Doukas et al., 2017). Yn hytrach na diagnosis clinigol, disgrifiad ydyw o unigolion sy'n cael anhawster mawr i gyfathrebu ac sydd yn aml angen y bobl sy'n eu hadnabod yn dda i ddehongli eu hymatebion a'u bwriadau. Mae'r term yn cyfeirio at grŵp amrywiol o bobl ac yn aml bydd ganddynt gyflyrau eraill, gan gynnwys amhariadau corfforol a synhwyraidd neu anghenion iechyd cymhleth.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion dan bwysau parhaus i leihau eu cyllideb gwariant o £25m tra hefyd yn cynnal darparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor nifer o gyfleon dydd gwahanol ar gael i bobl ag anableddau dysgu - mae rhai o'r rhain yn wasanaethau mewnol sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor ac mae rhai yn cael eu comisiynu'n allanol.

- Mae tua 190 o unigolion yn mynychu gwasanaeth dydd bob wythnos.
- Gallant fynychu naill ai ar sail amser llawn neu ran amser yn dibynnu ar anghenion unigol.
- Mae rhai unigolion yn mynychu mwy nag un gwasanaeth yn ystod yr wythnos.
- Ar hyn o bryd mae'r gwasanaethau hyn yn costio oddeutu £1.5m y flwyddyn i'r Cyngor.

**Darpariaeth fewnol:**

- Morswyn, Caergybi
- Blaen y Coed, Llangoed
- Gerddi Haulfre, Llangoed
- Gors Felen, Llangefni

**Gweithdy Canolfan Byron**

Mae Gweithdy Canolfan Byron wedi'i eithrio o'r cynnig hwn oherwydd:

- Sefydlwyd y gweithdy yn wreiddiol fel gwasanaeth cyflogaeth gyda chefnogaeth ar gyfer grwpiau anabledd eraill ond mae wedi cael ei gynnwys yn hanesyddol yn y gwasanaeth anabledd dysgu.
- Mae'n darparu cyfleoedd cyflogaeth gyda chefnogaeth i nifer o unigolion na fyddai eu hanghenion yn dod o dan feini prawf cymhwysedd y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer darparu gofal a chymorth a reolir, gan gynnwys gwasanaethau dydd a / neu gyfleoedd gwaith.

Felly bydd Gweithdy Canolfan Byron yn cael ei adolygu o dan ffrwd waith ar wahân gydag adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai 2020.

**Darpariaeth allanol:**
Ar hyn o bryd rydym hefyd yn contractio gyda chwe darparwr allanol sydd wedi'u lleoli yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd eisoes wedi dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi dull arloesol y darparwyr hyn o ddarparu gwasanaethau. Mae'r trefniadau contractio ar gyfer y gwasanaethau allanol wrthi'n cael eu diweddaru trwy fframwaith newydd a fydd ar waith erbyn mis Rhagfyr 2020. Bydd y fframwaith hwn yn agor y farchnad i ddarparwyr newydd posib a bydd hefyd yn sicrhau bod y ddarpariaeth fewnol ac allanol yn asio'n dda ac yn lleihau dyblygu. Bydd y fframwaith newydd yn gwneud hyn trwy:

a) Canolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau - h.y. symud o dalu am weithgareddau o fewn amserlen benodol i dalu am ganlyniadau neu ddeilliannau sy'n cynyddu sgiliau, lles a hyder unigolyn.
b) Sicrhau'r un safonau darparu gwasanaeth ar draws yr holl wasanaethau gyda'r gwasanaethau mewnol ac allanol yn canolbwyntio ar sicrhau cynnydd a chyflawni canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol.
c) Sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n deg gyda'r un meini prawf asesu a mynediad ar gyfer gwasanaethau mewnol ac allanol.
d) Sicrhau prisiau teg am wasanaethau sy'n adlewyrchu gwahanol anghenion yr unigolion sy'n mynychu. Er enghraifft, gallai fod yn briodol talu cyfradd premiwm i gefnogi unigolyn ag anableddau dysgu mwy dwys neu luosog neu anghenion cymorth cymhleth.
e) Bydd gan ddarparwyr fwy o ryddid a hyblygrwydd i weithio gyda'r bobl maent yn eu cefnogi i ddylunio a chyd-gynhyrchu'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni'r canlyniadau hynny. Gellir cyflwyno rhai o'r gweithgareddau hyn mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau cymunedol eraill.
f) Annog darparwyr gwasanaeth, mewnol ac allanol, i ddatblygu, addasu a newid mewn ymateb i'r ffordd newydd hon o weithio.
g) Annog grwpiau cymunedol fel Men's Sheds i gynnig lleoliadau a gefnogir a all ychwanegu at sgiliau unigolyn a sicrhau cynnydd.

Cyfeirier at y map yn **Atodiad A** sy'n dangos lleoliad y gwasanaethau.

**Y Galw i'r Dyfodol:**
Mae'r gwasanaeth yn gwneud y newidiadau hyn er mwyn adlewyrchu cynnydd yn y galw a sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol. Mae nifer y bobl ar Gofrestr Anabledd Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynyddu dros y 14 mlynedd diwethaf o 249 yn 2005 i 322 yn 2019, sef cynnydd o 29%. Pe bai'r nifer ar y gofrestr yn cynyddu ar gyfradd debyg dros y 15 mlynedd nesaf efallai y bydd 415 ar y Gofrestr erbyn 2034. Yn gadarnhaol, mae unigolion ag anableddau hefyd yn byw yn hirach ac o ganlyniad, mae angen cefnogaeth i gwrdd ag ystod o anghenion cymhleth na chawsant eu nodi o'r blaen.
Rhaid i'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol newid er mwyn cwrdd â'r galw yn y dyfodol a disgwyliadau gwahanol.

**Nifer y bobl ar y gofrestr AD:**

| Blwyddyn | Oed 18-65 | Dros 65 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2005 | 235 | 14 | 249 |
| 2010 | 255 | 17 | 272 |
| 2015 | 271 | 32 | 303 |
| 2019 | 289 | 33 | 322 |

**Y galw yn y dyfodol: Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl) ac Awtistiaeth:**
Mae gwybodaeth a gymerwyd o'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn dangos y bydd cynnydd yn y galw am gefnogaeth i bobl ag anableddau cymhleth (Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog (ADDLl) ac Awtistiaeth). Mae'r gwasanaeth wedi nodi 8 unigolyn sy'n gadael addysg dros y 3 blynedd nesaf a fydd angen darpariaeth arbenigol.

## HERIAU ALLWEDDOL Y MAE'R CANOLFANNAU DYDD YN EU HWYNEBU AR HYN O BRYD

Mae'r heriau allweddol y mae'r canolfannau'n eu hwynebu fel a ganlyn:

| | **Heriau Allweddol** |
|---|---|
| **3.1 Hygyrchedd** | Ar hyn o bryd dim ond Gors Felen a Blaen y Coed sy'n gwbl hygyrch i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth gyda mynediad un lefel drwyddynt, teclynnau codi ar draciau yn y nenfwd a chyfleusterau toiled digonol.<br><br>Mae Morswyn yn hen adeilad ysgol gynradd – nid yw rhai rhannau o'r adeilad yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac mae'r cyfleusterau toiled yn annigonol.<br><br>Gofod allanol yw Gerddi Haulfre yn bennaf ac nid yw'n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. Mae Gerddi Haulfre yn defnyddio'r cyfleusterau yn Blaen y Coed. |
| **3.2.Cludiant / amser teithio** | Ar hyn o bryd mae unigolion yn teithio pellteroedd o hyd at 60 milltir y dydd i gael mynediad i'r canolfannau dydd, gan ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio gwasanaethau y tu allan i'w ward ac mae llawer o unigolion yn teithio hyd at 3 awr y dydd. |
| **3.3 Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** | Cyfyngir y cyfleoedd cyfredol i weithgareddau yn y canolfannau dydd ac er y gwneir ymdrech i'r canolfannau fynd ar weithgareddau allanol hefo'i gilydd, mae'n costio. |
| **3.4. Cost y dydd** | Nid yw'r costau uned cyfredol fesul dydd yn adlewyrchu'r anghenion a'r materion amrywiol sy'n wynebu ein defnyddwyr gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae'r gost uned yn uwch ar gyfer yr unigolion mwyaf annibynnol ac abl nag ar gyfer y rheini sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Ar ben hynny, mae'r gost ddyddiol fesul pen yn is yn y sector annibynnol (o leiaf £35 yn is y dydd). |
| **3.5 Adeiladau** | Mae costau sylweddol yn gysylltiedig ag adnewyddu, atgyweirio a chynnal a chadw'r holl adeiladau cyfredol. |
| **3.6 Arbenigedd a rheolaeth** | Ar hyn o bryd mae arbenigedd y staff ymroddedig wedi'i rannu ar draws y pedwar safle heb unrhyw ganolfan ragoriaeth. At hynny, rheolir y gwasanaethau hyn yn gyffredinol ar safle ar wahân. |

Cyn dod i'r cynnig (Adran 3) isod, mae'r Cyngor wedi ystyried y canlynol:

- Gyrwyr allweddol ar gyfer newid (Adran 4)
- Gyrwyr allweddol ar gyfer y gwasanaethau dydd mewnol (Adran 5)
- Dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer y gwasanaethau dydd mewnol (Adran 6)
- Gwybodaeth ariannol (Adran 7)

## 3. Y CYNNIG

Y cynnig yw:
**Datblygu mwy o gyfleon yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre**.

Bydd y gwasanaeth newydd yn darparu cyfleon hyblyg i bobl ag anabledd dysgu a bydd yn cwrdd â galw yn y dyfodol, gan gynnwys gan y bobl hynny ag anghenion mwy cymhleth.

Gwneir hyn drwy:

1. Sefydlu fframwaith comisiynu cadarn i ddarparwyr allanol gynnig cyfleoedd dydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
2. Datblygu cyfleon pellach i bobl ag anabledd dysgu ddefnyddio’r adnoddau a’r gwasanaethau cyfredol o fewn y gymuned yn ystod y dydd e.e. mewn hybiau lleol.
3. Ymestyn adeilad Gors Felen, Llangefni i ddarparu cyfleuster pwrpasol a all fod yn ddigon hyblyg i ddarparu gweithgareddau amrywiol i unigolion â gwahanol anghenion, yn enwedig y rheini sydd angen diogelwch gwasanaeth a ddarperir o fewn adeilad. Bydd yn ganolfan ragoriaeth gyda staff wedi eu huwchsgilio yn defnyddio arferion gorau ac yn cydweithio â’r adran iechyd. Bydd y ganolfan hefyd yn ganolfan galw heibio ar gyfer pob unigolyn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned.
4. Hefyd datblygu opsiynau amgen i bobl ag anghenion cymhleth sy’n ategu’r ddarpariaeth yn y ganolfan ragoriaeth / canolfan galw heibio yn Gors Felen. Bydd unigolion sydd â'u cludiant eu hunain yn gallu mynd a dod yn ystod y dydd a chyflawni gweithgareddau eraill.
5. Wrth i'r gwasanaethau uchod gael eu datblygu, cau’r gwasanaethau dydd yn raddol ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre, gan sicrhau bod darpariaeth amgen ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yr effeithir arnynt cyn iddynt gau.
6. Annog unigolion i ddewis taliad uniongyrchol er mwyn gwneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cyfleon dydd. Mae rhai atebion arloesol yn dechrau datblygu lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn cyfuno eu taliadau uniongyrchol i hwyluso gweithgareddau mwy creadigol gan ganolbwyntio ar gyflawni canlyniadau.
7. Cefnogi'r datblygiadau arloesol sydd wedi digwydd yn lleol dros y blynyddoedd diwethaf yn y trydydd sector. Mae sefydliadau trydydd sector fel Mencap, Actif Woods a Leonard Cheshire eisoes yn cynnig datrysiadau creadigol gyda'r nod o sicrhau opsiynau cynaliadwy ac ymarferol i unigolion.
8. Sefydlu swyddi hwyluswyr cymunedol penodol ar gyfer anabledd dysgu - tebyg i Gydlynwyr Ardal Leol - a fydd yn ymgysylltu â phartneriaid cymunedol ac yn datblygu ystod o gyfleoedd cymunedol. Bydd y swyddi hyn hefyd yn ymgymryd â rôl broceriaeth i gydlynu'r lleoliadau fframwaith allanol.

## 4. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER NEWID

### Beth yw’r gyrwyr allweddol ar gyfer newid?

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 -** Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn mynnu newid mewn diwylliant i helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau llesiant - yn gyntaf trwy ofyn "beth sy'n bwysig i chi?" ac yn ail trwy wneud y mwyaf o rwydweithiau cymorth yr unigolyn ei hun a thrwy fynediad at adnoddau cymunedol a gwirfoddol.

- **Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 -** Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, gyda chymunedau, a chyda’i gilydd, gan geisio atal problemau a chymryd agwedd sy’n fwy cydgysylltiedig.

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 -** Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar lwyddiant rheoleiddio yng Nghymru ac yn adlewyrchu byd cyfnewidiol gofal cymdeithasol. Mae'n gosod ansawdd a gwella gwasanaethau wrth galon y drefn reoleiddio ac yn cryfhau gwarchodaeth i'r rheini y mae angen eu gwarchod. Bydd rheoleiddio yn symud y tu hwnt i gydymffurfio â safonau gofynnol, ac yn canolbwyntio mwy ar ansawdd gwasanaethau a'u heffaith ar bobl sy'n eu derbyn.

- Yr hyn sy'n gyffredin i'r tair deddfwriaeth yw:
    - Hyrwyddo mwy o gynhwysiant cymunedol, cyfranogiad a dinasyddiaeth.
    - Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl.
    - Hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
    - Datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau unigol.
    - Galw cynyddol am ddarpariaethau gofal a chymorth sydd wedi eu teilwrio i'r unigolyn, ac o ansawdd uchel.
    - Cynnydd yn nisgwyliadau'r cyhoedd am wasanaethau a chefnogaeth o ansawdd uchel.

**Beth yw'r gyrwyr lleol ar gyfer newid?**

- **Strategaeth Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer Cyfleoedd Dydd i Bobl ag Anabledd Dysgu 2019-2022.** Mabwysiadwyd strategaeth newydd ar gyfer cyfleoedd dydd yn ystod 2019. Roedd y strategaeth yn ffrwyth ymarfer ymgysylltu helaeth â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a darparwyr gwasanaeth yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2019. Dyluniwyd yr ymgysylltiad hwn i sefydlu a oedd y strategaeth yn gwneud synnwyr i'r bobl hynny a effeithir yn uniongyrchol gan y gwasanaethau hyn (cyfeirier at ddyfyniadau uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar dudalen 4). Mae angen i ni greu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel i unigolion yn eu cymunedau lleol a dylai'r cynnig newydd i unigolion gynnwys yr egwyddorion allweddol canlynol:
    - Gweithio, gwirfoddoli neu gyfrannu at lesiant pobl eraill;
    - Addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol neu gyflogaeth;
    - Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol lle bo hynny'n briodol, fel bod unigolion yn cael cyfle i gael mwy o ddewis a rheolaeth ynghylch sut i gwrdd â'u hanghenion cymorth;
    - Mwy o ddarpariaeth yn y gymuned a llai o alw am wasanaethau sydd wedi'u lleoli mewn adeilad penodol. Roedd y strategaeth hefyd yn cydnabod bod angen o hyd i gael rhywfaint o ddarpariaeth mewn adeiladau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu dwys a lluosog a chanddynt anghenion gofal a chymorth mwy cymhleth.

- **Mae Cynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-22** yn cynnwys yr amcanion canlynol sy'n uniongyrchol berthnasol i'r gwasanaethau hyn:
    - Amcan 1: Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.
    - Amcan 2: Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

- **Mae Cynllun y Cyngor** yn nodi hefyd y byddwn yn parhau i foderneiddio a newid modelau cyflawni i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel ar gael mewn modd cost-effeithiol. Bydd y cynllun yn cael ei wireddu trwy sefydlu trefniadau cadarn i fynd i'r afael â'r heriau ariannol difrifol, gan sicrhau bod meysydd blaenoriaeth yn cael eu gwarchod tra'n cydnabod y bydd trawsnewid gwasanaethau a chyflawni gwasanaethau mewn ffordd arloesol yn hanfodol i sicrhau hyfywedd tymor hir y

Cyngor. Mae'r ffactorau hyn yn hanfodol os ydym am drawsnewid y ddarpariaeth Anabledd Dysgu.

- Mae **Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018-23** yn nodi'r cyd-destun rhanbarthol ac yn mabwysiadu'r egwyddorion canlynol; "Bydd gan bobl ag Anableddau Dysgu well ansawdd bywyd; yn byw'n lleol lle maent yn teimlo'n 'ddiogel ac yn iach', lle cânt eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau a lle mae ganddynt fynediad at gefnogaeth bersonol effeithiol sy'n hyrwyddo annibyniaeth, dewis a rheolaeth. "

- Yn unol â **Fframwaith Canlyniadau Grant Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru,** defnyddio cyfleoedd i alluogi a grymuso pobl ag anableddau dysgu i wireddu eu potensial tymor hir trwy:
    - Hyrwyddo diogelwch personol a chymunedol
    - Hyrwyddo Annibyniaeth a Rheolaeth
    - Hyrwyddo Cynnydd Economaidd a Rheolaeth Ariannol
    - Hybu Iechyd a Llesiant

- Datblygu asedau yn y gymuned a gwella cynhwysiant cymunedol gan arwain at well dealltwriaeth o anghenion pobl ag anabledd dysgu.

- Yr angen i wneud arbedion ariannol mewn ymateb i bwysau cyllidebol gan Lywodraeth Genedlaethol, ochr yn ochr â'r galw cynyddol am Ofal Cymdeithasol.

Mae'r adran ganlynol (5) yn perthnasu'r gyrwyr allweddol i'r Gwasanaeth Dydd ar gyfer Anabledd Dysgu.

## 5. GYRWYR ALLWEDDOL AR GYFER NEWID YN Y GWASANAETHAU DYDD AR GYFER ANABLEDDAU DYSGU

Isod fe nodir gyrwyr allweddol perthnasol y Gwasanaethau Dydd ar gyfer Anableddau Dysgu, yn seiliedig ar y gyrwyr allweddol yn adran 4: -

### 5.1 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014 (= Canlyniadau)

Rhaid ail-lunio'r gwasanaeth yng nghyd-destun y dyletswyddau a osodwyd ar awdurdodau lleol o dan y ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth sy'n golygu bod angen defnyddio gwahanol ffyrdd i gynorthwyo unigolion i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Mae'n rhaid gwella safonau yn unol â deddfwriaeth ddiweddar i sicrhau bod pobl yn cyrraedd eu potensial llawn, hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a datblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gwrdd â chanlyniadau unigol. Rhaid hefyd sicrhau bod gan bobl ag anableddau dysgu ran gadarnhaol i'w chwarae yn y gymuned ehangach a gwella cynhwysiant cymunedol gan arwain at well dealltwriaeth o anghenion pobl ag anabledd dysgu gyda phwyslais ar atal yr angen am wasanaethau.

Mae'r ddeddfwriaeth wedi cyflwyno dyletswyddau statudol newydd ar gyfer Awdurdodau lleol ac mae'n golygu bod raid cael dulliau newydd o wella llesiant unigolion, sef dulliau sy'n adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl. Bydd Moderneiddio Cyfleon Dydd yn galluogi'r gwasanaeth i weithio gydag unigolion fel y gallant gael mynediad at ddewis ehangach o leoliadau yn y gymuned mewn ffordd sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

Mae'r galw am wasanaethau dydd traddodiadol fel y darperir nhw gan yr awdurdod lleol yn newid gyda mwy o unigolion:

- Yn defnyddio adnoddau yn y gymuned a chyfleon a drefnir gan y trydydd sector i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau yn y gymuned.
- Dewis Taliad Uniongyrchol i brynu eu cefnogaeth eu hunain i gyflawni eu canlyniadau.
- Mae'n well ganddynt i'w darparwr gofal a chymorth gyflawni eu canlyniadau (e.e. os ydynt mewn lleoliadau byw â chymorth).

**5.2 Strategaeth Gwasanaethau Dydd Anableddau Dysgu**

Yn ystod 2019 buom yn gweithio gyda gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr i ysgrifennu strategaeth newydd mewn perthynas â Chyfleoedd Dydd ar gyfer Anableddau Dysgu. Yn dilyn cyfnod o ymgysylltu gyda'r defnyddwyr gwasanaeth hynny a'u gofalwyr, mabwysiadwyd y strategaeth yn ffurfiol. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth fel a ganlyn:

- Gwaith, gwirfoddoli neu gyfrannu at les eraill;
- Addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol neu gyflogaeth;
- Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol lle bo hynny'n briodol, fel bod unigolion yn cael cyfle i gael mwy o ddewis a rheolaeth ynghylch sut i gwrdd â'u hanghenion cymorth;
- Mwy o ddarpariaeth yn y gymuned a llai o alw am wasanaethau sydd wedi'u lleoli mewn adeilad penodol.

Roedd y Strategaeth hefyd yn amlinellu'r egwyddorion a ganlyn:

- Mae gan bobl sydd ag anabledd dysgu'r hawl i fyw bywyd normal yn y gymuned fel dinasyddion cyfartal.
- Bydd cyfleoedd dydd wedi'u cynllunio'n dda yn helpu pobl ag anableddau dysgu i wireddu'r uchelgais o fyw bywyd llawn.
- Mae angen i ni greu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel i unigolion yn eu cymunedau lleol a dylai'r cynnig newydd i unigolion gynnwys y prif egwyddorion canlynol:
  - Gwaith, gwirfoddoli neu gyfrannu at les eraill;
  - Addysg, hyfforddiant a datblygu sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol neu gyflogaeth;
  - Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol lle bo hynny'n briodol, fel bod unigolion yn cael mwy o ddewis a rheolaeth ynghylch sut i gwrdd â'u hanghenion cymorth
  - Mwy o ddarpariaeth yn y gymuned a llai o alw am wasanaethau wedi'u lleoli mewn adeilad penodol;
  - Roedd y strategaeth hefyd yn cydnabod bod angen o hyd i gael rhywfaint o ddarpariaeth mewn adeiladau ar gyfer pobl ag anghenion gofal a chymorth lluosog a mwy cymhleth.

**Effaith y strategaeth a'r hyn y mae'n ei olygu i'n darpariaeth gwasanaeth dydd presennol:**

- O'r adborth a'r ymatebion a gafwyd i'r strategaeth, mae diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae unigolion ei eisiau ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r ddarpariaeth fewnol bresennol wedi ei lleoli'n benodol o fewn pedair wal adeiladau gan gyfyngu ar gynnydd a chyflawniad unigolion – bron ei fod yn wasanaeth "yr un fath i bawb" ni waeth beth yw'r gwahaniaeth mewn oed, uchelgais a diddordebau.
- Mae datblygiadau diweddar yn y ddarpariaeth fewnol wedi dangos gwerth cyfleoedd sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned a gwelwyd gwelliant yn lles unigolion o ganlyniad i hynny.
- Mae adnoddau ariannol y Cyngor yn ariannu costau rhedeg adeiladau a staff ar draws yr ynys ac am fod ein cronfeydd wedi'u clymu yn yr adeiladau hynny, mae cyfleoedd defnyddwyr gwasanaeth wedi'u cyfyngu i'r amgylchedd hwnnw.
- Drwy ddiffiniad, mae ein canolfannau dydd presennol yn adeiladau gofal cymdeithasol ac mae hynny wedi creu rhwystrau o ran cyfranogiad cymunedol a dim ond pobl sy'n derbyn gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n eu defnyddio.

- Mae rhannu arbenigedd ac adnoddau rhwng tair canolfan a leolir mewn adeiladau yn golygu bod y ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth yn anghyson ac yn gyfyngedig.

Cyfeiriwch at Dudalen 4 am ddyfyniadau uniongyrchol gan ddefnyddwyr gwasanaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu ar y Strategaeth ym mis Ebrill a Mai 2019.

**5.3 Ariannol**

- Sicrhau bod yr amrywiaeth yn y gost fesul lleoliad yn gostwng,
- Mae'r gost refeniw yn gysylltiedig â rhedeg gwasanaethau dydd mewnol yn gostwng,
- Mae ôl-groniad costau cynnal a chadw a materion hygyrchedd yn cael sylw.

**5.3.1** Mae'r tabl isod yn nodi cyfanswm y gost fesul diwrnod ar gyfer mynychu pob canolfan ddydd:

| Cost uned fesul diwrnod | Morswyn | Gors Felen | Blaen y Coed | Gerddi Haulfre | Darparwyr Allanol |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost bresennol – Medi 19 | £53.78 | £59.80 | £51.85 | £84.21 | £35 - £49 y dydd |
| Y flwyddyn gynt – Gorffennaf 19 | £49.80 | £55.09 | £49.43 | £82.29 | £35 - £49 y dydd |

Dengys y tabl isod:

- Mae isafswm gwahaniaeth o £35 y dydd rhwng y ddarpariaeth allanol a mewnol.
- Mae darparwyr allanol yn darparu gwasanaethau tebyg i Gerddi Haulfre am gost uned o rhwng £35 a £49 y diwrnod (o gymharu â Gerddi Haulfre sy'n costio £84.21 y diwrnod).
- Gerddi Haulfre sydd â'r gost uchaf fesul diwrnod, £84.21, ac nid yw hynny'n gyson â'r ffaith mai'r unigolion mwyaf abl ac y mae angen y lleiaf o gymorth arnynt sy'n mynychu'r gwasanaeth hwn.
- Mae'r gost uned uwch yn adlewyrchu'r adnoddau sydd eu hangen i liniaru'r ffactorau risg yn gysylltiedig â bod y tu allan mewn lle agored yn defnyddio offer a chyfarpar garddio.
- Yn ogystal, oherwydd gweithdrefnau iechyd a diogelwch mewn amgylchedd awyr agored yng Ngerddi Haulfre, nid oes modd i'r gweithwyr gofal 1:1 fod ar y safle gyda'r defnyddwyr gwasanaeth.
- Yn yr achos hwn, mae darparwyr allanol yn darparu gwasanaethau am gost sydd rhwng 41% a 58% o gost y darparwr mewnol.
- Mae cost uned Gors Felen (£59.80 y dydd) yn uwch na chost uned Morswyn (£53.78) a Blaen y Coed (£51.85) ac yn adlewyrchu'r ffaith fod yr unigolion sy'n mynychu Gors Felen yn tueddu i fod ag anghenion mwy cymhleth a bod angen cymhareb uwch o staff i gleientiaid.

**5.3.2** Mae'r tabl isod yn nodi'r gost bresennol fesul diwrnod mynychu pob canolfan ddydd, gan nodi'r costau staffio a'r costau eraill ar wahân, gan gynnwys costau adeiladau:

| Cost uned fesul diwrnod | Morswyn | Gors Felen | Blaen y Coed | Gerddi Haulfre |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm cost bresennol - Medi 19 | £53.78 | £59.80 | £51.85 | £84.21 |
| Cost staffio fesul diwrnod | £42.78 | £47.45 | £40.65 | £70.98 |
| % costau staff | 80% | 79% | 78% | 84% |
| Gorbenion eraill, gan gynnwys costau adeiladau | £11.00 | £12.35 | £11.21 | £13.23 |
| % costau eraill | 20% | 21% | 22% | 16% |

- Mae costau uned heb gynnwys staff yn amrywio o £11 i £13.23 y dydd.
- Gerddi Haulfre yw'r drutaf o hyd, £13,23 y dydd, gan adlewyrchu gofynion technegol a diogelwch ychwanegol y gwasanaeth hwnnw.

- O ran costau uned, mae'r gymhareb rhwng costau staff a chostau eraill ar gyfer Morswyn, Gors Felen a Blaen y Coed tua 79% ar gyfer costau staff a 21% ar gyfer costau adeiladu. Cymhareb Gerddi Haulfre yw 84% costau staff a 16% costau adeiladau.
- Mae Gerddi Haulfre yn ddrutach na'r tair canolfan arall o ran costau staff a chostau adeiladau. Mae'n anodd cyfiawnhau hyn o ystyried bod unigolion mwy abl yn mynychu Gerddi Haulfre a'i fod, yn ei hanfod, yn weithgaredd awyr agored.

### 5.4 Cludiant:

Sicrhau fod unigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion sydd yn gymharol agos i'w cartref. Dylid darparu cludiant gyda chymorth i wasanaethau dydd yn y ffordd fwyaf cost effeithiol sydd hefyd yn hyrwyddo annibyniaeth. Os yw person yn mynychu gwasanaeth yn barod, rhaid asesu'r effaith ar y person o ganlyniad i symud i wasanaeth arall.
Y prif faterion sydd angen sylw o ran cludiant yw:

- Bod annibyniaeth a chynhwysiant unigolion yn cael ei hyrwyddo drwy annog a chefnogi ystod o opsiynau teithio, gan gynnwys teithio annibynnol
- Lleihau'r pellter a deithir ac amseroedd teithio i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ac osgoi gwario arian cyhoeddus mewn ffordd afresymol
- Lleihau llygredd aer ac annog y defnydd o adnoddau cynaliadwy drwy hyrwyddo cludiant cyhoeddus a rhannu cludiant.

Dylid ystyried taith defnyddwyr gwasanaeth i ac o wasanaethau dydd wrth asesu addasrwydd a fforddiadwyedd lleoliadau presennol. Mae gwybodaeth ynghylch cludiant a phellteroedd teithio dyddiol i ganolfannau wedi cael ei chasglu ynghyd yn y tablau canlynol a bydd o gymorth i asesu'r effaith fydd unrhyw newidiadau yn ei gael ar ddefnyddwyr pob canolfan.

Nodwch os gwelwch yn dda:

- Mae'r holl ddata yn dangos y sefyllfa ym mis Medi 2019
- Bydd rhai unigolion yn ymddangos yn yr ystadegau ar gyfer mwy nag un ganolfan – e.e. os ydynt yn mynychu gwahanol ganolfannau yn ystod yr wythnos
- Mae'r unigolion sy'n teithio i ganolfannau dydd yn eu ceir eu hunain yn gwneud hynny yn eu car Mobility wedi ei yrru gan eu gweithiwr cymorth 1:1. Nid oes gan unrhyw un o'r defnyddwyr gwasanaeth drwydded yrru.*
- CCM = bysiau Cludiant Cymunedol Môn.

#### 5.4.1 Math o gludiant: sut mae unigolion yn teithio i'r canolfannau dydd ar hyn o bryd:

| Canolfan | Car Mobility gyda gyrrwr (gweler uchod*) | Cludiant cyhoeddus | CCM | Arall (cerdded yn lleol neu cael lifft gan riant ayb) | Cyfanswm sy'n mynychu bob wythnos (a) |
|---|---|---|---|---|---|
| Morswyn | 4 | | 15 | 2 | 21 |
| Gors Felen | 12 | | 9 | 3 | 24 |
| Blaen y Coed | 9 | 1 | 12 | 2 | 24 |
| Gerddi Haulfre | | 5 | 6 | | 11 |
| **Cyfanswm** | **25** | **6** | **42** | **7** | **80** |

- Morswyn – mae 21 o bobl yn mynychu Morswyn yn rheolaidd, mae 4 (19%) yn defnyddio eu ceir mobility eu hunain sy'n cael eu gyrru gan eu gweithwyr cymorth 1:1, mae 15 (17%) yn teithio ar fws CCM.
- Gors Felen – mae 24 o bobl yn mynychu Gors Felen yn rheolaidd, mae 12 (50%) yn defnyddio eu ceir mobility eu hunain sy'n cael eu gyrru gan eu gweithwyr cymorth 1:1, mae 9 yn teithio ar fws CCM.
- Blaen y Coed – mae 24 o bobl yn mynychu Blaen y Coed yn rheolaidd, mae 9 (38%) yn defnyddio eu ceir mobility eu hunain sy'n cael eu gyrru gan eu gweithwyr cymorth 1:1, mae 12 (50%) yn teithio ar fws CCM, ac 1 (4%) yn defnyddio cludiant cyhoeddus.
- Gerddi Haulfre – mae 11 o bobl yn mynychu Gerddi Haulfre yn rheolaidd, nid oes yr un ohonynt yn defnyddio eu ceir mobility eu hunain, mae 6 (55%) yn teithio ar fws CCM, mae 5 (45%) yn defnyddio cludiant cyhoeddus.

### 5.4.2 Pellter o'r cartref - Unigolion sy'n teithio o du allan i'r ward etholiadol:

| Canolfan | Nifer yr unigolion sy'n mynychu'r ganolfan ddydd bob wythnos (a) | Nifer yr unigolion sy'n mynychu o du allan i'r ward | % unigolion o du allan i'r ward |
|---|---|---|---|
| Morswyn | 21 | 11 | 52% |
| Gors Felen | 24 | 11 | 46% |
| Blaen y Coed | 24 | 22 | 92% |
| Gerddi Haulfre | 11 | 11 | 100% |

- Morswyn – mae 48% o'r bobl sy'n mynychu yn byw yn y ward a 52% yn byw tu allan i'r ward.
- Gors Felen – mae 54% o'r bobl sy'n mynychu yn byw yn y ward a 46% yn byw tu allan i'r ward.
- Blaen y Coed – mae 8% o'r bobl sy'n mynychu yn byw yn y ward a 92% yn byw tu allan i'r ward.
- Gerddi – mae 100% o'r bobl sy'n mynychu yn byw tu allan i'r ward.

### 5.4.3 Pellter o'r cartref – Unigolion sy'n byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan:

| Canolfan | Nifer yr unigolion sy'n mynychu'r ganolfan ddydd bob wythnos (fel uchod (a) ) | Nifer yr unigolion sy'n byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan | % unigolion sy'n byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan |
|---|---|---|---|
| Morswyn | 21 | 7 | 33% |
| Gors Felen | 24 | 5 | 21% |
| Blaen y Coed | 24 | 14 | 58% |
| Gerddi Haulfre | 11 | 8 | 73% |

- Morswyn – mae 33% yn bwy mwy na 10 milltir o'r ganolfan.
- Gors Felen – mae 21% yn byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan.
- Blaen y Coed – mae 58% yn byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan.
- Gerddi – mae 73% yn byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan.

### 5.4.4 Pellter o'r cartref – Pellter cyfartalog o'r cartref i'r ganolfan (milltiroedd un ffordd):

| Canolfan | Nifer yr unigolion sy'n mynychu'r ganolfan ddydd bob wythnos (a) | Cyfanswm pellter o'r cartref i'r ganolfan i bawb (b) | Pellter cyfartalog o'r cartref i'r ganolfan (b÷a) |
|---|---|---|---|
| Morswyn | 21 | 124.5 | 5.9 |
| Gors Felen | 24 | 131.1 | 5.5 |
| Blaen y Coed | 24 | 305.7 | 12.7 |
| Gerddi Haulfre | 11 | 170.4 | 15.5 |

- Morswyn – y pellter cyfartalog o'r cartref i'r ganolfan yw 5.9 milltir (un ffordd)
- Gors Felen - y pellter cyfartalog o'r cartref i'r ganolfan yw 5.5 milltir (un ffordd)
- Blaen y Coed – y pellter cyfartalog o'r cartref i'r ganolfan yw 12.7 milltir (un ffordd)
- Gerddi – y pellter cyfartalog o'r cartref i'r ganolfan yw 15.5 milltir (un ffordd)

### 5.4.5 Pellter o'r cartref – y pellter mwyaf y mae <u>un</u> unigolyn yn ei deithio (taith ddyddiol ddwyffordd):

**h.y. pwy sy'n teithio bellaf i bob canolfan.**

| Canolfan | Pellter mewn milltiroedd (dwyffordd) | Math o gludiant |
|---|---|---|
| Morswyn | 42 milltir | Cael lifft gan berthynas |
| Gors Felen | 34 milltir | Car ei hun wedi'i yrru gan ofalwr |
| Blaen y Coed | 58 milltir | Car ei hun wedi'i yrru gan ofalwr |
| Gerddi Haulfre | 60 milltir | Cludiant cyhoeddus |

- Morswyn - y pellter mwyaf y mae un unigolyn yn ei deithio bob dydd yw 42 milltir - mae hyn gyfystyr â thaith o Langefni i Rhyl bob dydd.
- Gors Felen - y pellter mwyaf y mae un unigolyn yn ei deithio bob dydd yw 34 milltir - mae hyn gyfystyr â thaith o Langefni i Landudno bob dydd.

- Blaen y Coed - y pellter mwyaf y mae un unigolyn yn ei deithio bob dydd yw 58 milltir - mae hyn gyfystyr â thaith o Langefni i'r Fferi Isaf (Queensferry) bob dydd.
- Gerddi Haulfre - y pellter mwyaf y mae un unigolyn yn ei deithio bob dydd yw 60 milltir - mae hyn gyfystyr â thaith o Langefni i'r Fferi Isaf bob dydd.

### 5.4.6 Amser Teithio – ar gyfer unigolion sy'n defnyddio Cludiant Cymunedol Môn i gyrraedd y ganolfan

**Amser teithio cyfartalog mewn munudau – taith ddwyffordd.**

| Canolfan | Nifer sy'n cyrraedd gyda CCM | Amser teithio dyddiol cyfartalog Taith ddwyffordd fesul person |
|---|---|---|
| Morswyn | 15 | 50 munud |
| Gors Felen | 9 | 58 munud |
| Blaen y Coed | 12 | 1 awr 40 munud |
| Gerddi Haulfre | 6 | 1 awr 58 munud |

- Morswyn – mae'r amser teithio cyfartalog i'r ganolfan i'r rhai sy'n defnyddio bysiau CCM yn 25 munud (un ffordd) = taith ddyddiol o 50 munud ar gyfartaledd
- Gors Felen – mae'r amser teithio cyfartalog i'r ganolfan i'r rhai sy'n defnyddio bysiau CCM yn 29 munud (un ffordd) = taith ddyddiol o bron i 1 awr ar gyfartaledd
- Blaen y Coed – mae'r amser teithio cyfartalog i'r ganolfan i'r rhai sy'n defnyddio bysiau CCM yn 50 munud (un ffordd) – taith ddyddiol o 1 awr 40 munud ar gyfartaledd
- Gerddi Haulfre – mae'r amser teithio cyfartalog i'r ganolfan i'r rhai sy'n defnyddio bysiau CCM yn 59 munud (un ffordd) = taith ddyddiol o bron i 2 awr ar gyfartaledd.

### 5.4.7 Amser teithio – i'r rhai sy'n defnyddio Cludiant Cymunedol Môn i gyrraedd y ganolfan

**Y daith hiraf i un unigolyn mewn munudau.**

| Canolfan | Nifer o funudau ar y bws ar gyfer 1 unigolyn, un ffordd | Nifer o funudau ar y bws ar gyfer un unigolyn, taith ddwyffordd |
|---|---|---|
| Morswyn | 1 awr 10 munud | 2 awr 20 munud |
| Gors Felen | 1 awr 5 munud | 2 awr 10 munud |
| Blaen y Coed | 1 awr 30 munud | 3 awr |
| Gerddi Haulfre | 1 awr 30 munud | 3 awr |

- Morswyn – o'r rhai sy'n teithio i'r ganolfan gan ddefnyddio bysiau CCM, mae'r unigolyn sydd ar y bws am yr amser hiraf yn teithio un ffordd ar y bws am 1 awr 10 munud = taith ddyddiol o 2 awr 20 munud. Gallai hynny fod gyfystyr â theithio am 13 awr yr wythnos = bron i 2 ddiwrnod gwaith.
- Gors Felen – o'r rhai sy'n teithio i'r ganolfan gan ddefnyddio bysiau CCM, mae'r unigolyn sydd ar y bws am yr amser hiraf yn teithio un ffordd ar y bws am 1 awr 5 munud = 1.5 diwrnod gwaith.
- Blaen y Coed – o'r rhai sy'n teithio i'r ganolfan gan ddefnyddio bysiau CCM mae'r unigolyn sydd ar y bws am yr amser hiraf yn teithio un ffordd ar y bws am 1 awr 30 munud = taith ddyddiol o 3 awr. Gallai hynny fod gyfystyr â theithio am 15 awr yr wythnos = 2 ddiwrnod gwaith.
- Gerddi Haulfre – o'r rhai sy'n teithio i'r ganolfan gan ddefnyddio bysiau CCM mae'r unigolyn sydd ar y bws am yr amser hiraf yn teithio un ffordd ar y bws am 1 awr 30 munud = taith ddyddiol o 3 awr. Gallai hynny fod gyfystyr â theithio am 15 awr yr wythnos = 2 ddiwrnod gwaith.

### 5.4.8 Effaith mynd i ddarpariaeth amgen, a derbyn bod y tair canolfan arall yn cael eu cau (holl ddefnyddwyr gwasanaeth).

**h.y. petai Morswyn, Gors Felen a BYC yn cau, pa mor bell fyddai'n rhaid i bawb deithio i gyrraedd Gerddi Haulfre ayb. (Milltiroedd cyfartalog a deithir ar gyfer pob unigolyn – un ffordd yn unig o'r cyfeiriad cartref)**

| Canolfan ddydd amgen ➔<br>Canolfan ddydd bresennol 🡣 | Morswyn | Gors Felen | Blaen y Coed neu Gerddi |
|---|---|---|---|
| Morswyn | d/b | 14.4 milltir | 27.0 milltir |
| Gors Felen | 15.5 milltir | d/b | 16.6 milltir |
| Blaen y Coed | 19.2 milltir | 7.5 milltir | d/b |
| Gerddi Haulfre | 16.2 milltir | 6.8 milltir | d/b |
| **Cyfartaledd POB UN** | **17.1 milltir** | **9.9 milltir** | **21.4 milltir** |

- Cau Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre a chadw Gors Felen fyddai'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar y milltiroedd cyfartalog a deithir - petai bob defnyddiwr gwasanaeth yn mynd i Gors Felen byddai'r daith unffordd gyfartalog yn gostwng i 9.9 milltir.
- Petai Morswyn yn aros ar agor a'r tair arall yn cau byddai'r pellter teithio un ffordd yn 17.1 milltir ar gyfartaledd.
- Petai Blaen y Coed neu Gerddi yn aros ar agor a'r tair arall yn cau byddai'r daith un ffordd yn 21.4 milltir ar gyfartaledd.

### 5.5 Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol

Sicrhau bod y canolfannau'n darparu amgylchedd diogel a chwbl hygyrch sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac sydd yn rhoi'r cyfle i unigolion wneud gwahanol weithgareddau er mwyn cyflawni eu potensial.

#### Morswyn

Mae'n hen adeilad sydd angen ei adnewyddu a'i foderneiddio, ac nid yw'n gwbl hygyrch i unigolion sydd â phroblemau symudedd oherwydd ei osodiad ac am fod grisiau rhwng gwahanol lefelau.

Mae ystafell haul yr adeilad yn gollwng, a phrofodd hynny'n anodd ei drwsio. Hefyd, mae angen trwsio ac ailbwyntio rhannau o'r gwaith brics. Bydd angen adnewyddu'r gegin o fewn y 5 mlynedd nesaf er mwyn iddi gwrdd â safonau modern ac mae angen gwneud gwelliannau i'r adeilad mewn perthynas â Legionella. Ar hyn o bryd, mae ôl-groniad cynnal a chadw a nodwyd yn £27k, heb gynnwys y gwaith y cyfeirir ato uchod.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwariwyd £1,293 ar ddelio â materion cynnal a chadw a oedd yn codi o ddydd i ddydd.

#### Gors Felen

Adeilad pwrpasol a adeiladwyd tua 10 i 15 mlynedd yn ôl ac ystyrir ei fod mewn cyflwr da yn gyffredinol.

Mae angen ei ailaddurno tu mewn, gwneud rhywfaint o waith trwsio ar y ffensys tu allan ac adnewyddu'r tarmac mewn rhai mannau. Mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthyns â Legionella hefyd a gwella'r awyriad yn y toiledau. Mae'n debyg y bydd angen uwchraddio'r gegin ymhen 5 mlynedd.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwariwyd £3,388 ar ddelio â materion cynnal a chadw dydd i ddydd.

#### Blaen y Coed

Adeilad pwrpasol a adeiladwyd tua 10 i 15 mlynedd yn ôl ac ystyrir ei fod mewn cyflwr da yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae rhai problemau yn ymwneud ag adnewyddu ac uwchraddio'r drysau, ffenestri a'r allanfeydd tân.

Mae'r llwybrau tu allan yn serth ac yn anwastad sy'n golygu ei bod yn anodd i unigolion â phroblemau symudedd symud o gwmpas cefn ac ochr yr adeilad. Mae hefyd angen gwneud gwelliannau i'r adeilad mewn perthynas â Legionella ac mae'n debyg y bydd angen uwchraddio'r gegin ymhen 5 mlynedd.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwariwyd £3,045 ar ddelio gyda materion cynnal a chadw dydd i ddydd.

#### Gerddi Haulfre

Mae safle Gerddi Haulfre yn ymestyn dros nifer o adeiladau a gerddi. Mae rhai ohonynt â chysylltiad uniongyrchol â rhedeg y ganolfan ddydd ac mae rhai yn cael eu defnyddio fel storfeydd. Mae Men's Sheds yn defnyddio un o'r adeiladau ar y safle - ond nid oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y gweithgaredd hwn a'r cyfleoedd gwaith yng Ngerddi Haulfre. Ni ragwelir y byddai newid defnydd

Gerddi Haulfre fel canolfan ddydd yn cael effaith ar y prosiect Men's Sheds nac ar weithgareddau eraill ar y safle.

Mae angen adnewyddu'r toiledau, nid oes system wres canolog, a dŵr oer yn unig sydd yn y gawod, felly nid oes modd ei defnyddio. Gyda llwybrau anwastad a grisiau, mae'n anodd i bobl sydd â phroblemau symudedd symud o gwmpas yr adeiladau.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwariwyd £2,175 ar ddelio gyda gwaith cynnal a chadw dydd i ddydd.

**5.6 Casgliadau o'r asesiad o'r prif yrwyr ar gyfer y gwasanaethau dydd mewnol**

Datblygwyd y cynnig hwn yng nghyd-destun y dyletswyddau a osodir ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) sy'n nodi bod rhaid cefnogi unigolion mewn gwahanol ffyrdd fel eu bod yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ar eu cyfer. Bydd unigolion yn cael cyfleoedd i gymryd rhan yn eu cymunedau eu hunain, gan hyrwyddo dewis, rheolaeth a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r pwyslais ar atal yr angen am wasanaethau a datblygu mwy o gefnogaeth yn y gymuned, gan y gymuned.
Mae moderneiddio cyfleoedd dydd a buddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned ar gyfer unigolion ag anableddau yn cefnogi'r agenda aillunio Gofal Cymdeithasol ac yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r deddfau hyn wedi creu dyletswyddau statudol newydd i Awdurdodau Lleol ac yn gofyn am ddulliau newydd i wella lles unigolion sydd yn adeiladu ar gryfderau ac asedau pobl ac adeiladu cymunedau cryf a chefnogol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau y gwneir defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Cyngor drwy ganolbwyntio'r gwasanaethau mewnol ar sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i unigolion sydd ag anghenion mwy cymhleth.

Daeth y gwaith ymgysylltu ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd ar gyfer Anableddau Dysgu i'r casgliad bod rhaid newid ein darpariaeth bresennol i gyfarfod â disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth ac i gwrdd â'r galw. Mae gan unigolion ddisgwyliadau uwch o ran pa ganlyniadau y byddent yn dymuno eu cyflawni ac maent yn awyddus i symud oddi wrth ddarpariaeth "yr un fath i bawb". Mae atebion mwy arloesol yn cael eu darparu yn y sectorau allanol a'r trydydd sector ac mae unigolion yn awyddus i gymryd rhan ynddynt.

Nid yw costau amrywiol y ddarpariaeth fewnol bresennol yn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau ariannol. Ar hyn o bryd, mae cost uned y gwasanaethau y mae'r unigolion mwyaf abl yn eu mynychu yn sylweddol uwch na'r gwasanaethau ar gyfer unigolion sydd ag anghenion cymorth mwy cymhleth. Mae angen ystyried hyn yn wyneb argaeledd lleoliadau allanol yn y gymuned am gost llawer is. Bydd y gwasanaethau cymunedol hyn yn cael eu cryfhau ymhellach yn ystod 2020 pan gyflwynir fframwaith i gefnogi prosesau comisiynu cadarn yn seiliedig ar ganlyniadau.

Mae cludiant dwyffordd i wasanaethau dydd ar wasgar yn gostus ac yn aneffeithlon. Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn eistedd ar fysiau am hyd at 3 awr y dydd. Byddai canolfan ragoriaeth mewn lleoliad mwy canolog yn caniatáu datblygu polisi cludiant mwy cyfeillgar i ddefnyddwyr a mwy cost effeithiol.

Mae angen gwneud gwaith adnewyddu a moderneiddio ar yr holl adeiladau presennol, i wahanol raddau. Er bod cyflwr y ddwy ganolfan bwrpasol a adeiladwyd yn ystod y 10-15 mlynedd ddiwethaf yn dda yn gyffredinol, mae materion cynnal a chadw yn parhau i fod angen sylw. Bydd angen buddsoddi'n yr holl adeiladau ar safle Haulfre yn y dyfodol, gyda'r gost yn uwch na'r cyllidebau presennol.

| **Crynodeb o'r cynnig: Cadw ac ymestyn Gors Felen, cau Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | • Bydd canolfan ragoriaeth bwrpasol, mewn lleoliad canolog ar yr ynys, yn darparu cyfleuster o'r radd flaenaf ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth – yn arbennig unigolion sydd ag anghenion mwy cymhleth.<br>• Dull sy'n canolbwyntio mwy ar y person er mwyn cyflawni canlyniadau unigol. | ▪ Byddai angen rheoli'r newid yn y gwasanaethau yn ofalus ac yn sensitif |
| 2.Strategaeth | • Llai o wasanaethau wedi'u lleoli mewn adeiladau a mwy o wasanaethau yn y gymuned<br>• Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau wrth gomisiynu gwasanaethau allanol<br>• Mwy o gyfleoedd arloesol sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn | ▪ |
| 3.Ariannol | • Llai o ddyblygu gwasanaethau<br>• Canolbwyntio adnoddau ar bobl ag anghenion mwy cymhleth<br>• Arbedion ariannol o ganlyniad i leihau'r cohort staff | ▪ |
| 4.Cludiant | • Bydd canolfan ganolog yn golygu gostyngiad sylweddol yn y pellteroedd teithio a'r daith ddyddiol<br>• Arbedion cysylltiedig mewn costau cludiant gyda gostyngiad mewn llwybrau bysiau. | ▪ |
| 5.Yr adeiladau a'r amgylchedd ffisegol | • Bydd cost adnewyddu Gors Felen yn cael ei gynnwys yn y bid cyfalaf am estyniad ar y safle.<br>• Bydd y ddarpariaeth newydd yn gwbl hygyrch ar gyfer anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth.<br>• Osgoi ariannu gwaith trwsio a chynnal a chadw ar yr adeiladau presennol. | ▪ |
| 6. Materion cyffredinol | | ▪ Mae'n sicr o darfu ar ddefnyddwyr gwasanaeth |

Mae'r papur hwn yn mynd ymlaen i nodi'r opsiynau amgen rhesymol i ganfod ateb i'r ardal gyfan. Mae'n amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi penderfynu ar ei gynnig ar gyfer y gwasanaethau dydd mewnol ac mae'n cyflwyno datrysiad arfaethedig ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn asesu opsiynau amgen rhesymol y rhoddwyd ystyriaeth iddynt ar gyfer yr holl ganolfannau dydd presennol.

## 6. OPSIYNAU AMGEN RHESYMOL AR GYFER Y GWASANAETHAU DYDD MEWNOL

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r opsiynau amgen rhesymol mewn ymgais i nodi datrysiad ar gyfer Ynys Môn gyfan sydd yn mynd i'r afael â'r gyrwyr allweddol a nodwyd yn adran 4 uchod.

| **6.1 Cynnal y Sefyllfa Bresennol – Dim newid i Morswyn, Gors Felen, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyfarfod â chanlyniadau unigol. |
| 2.Strategaeth | | ▪ Nid yw'n ymateb i adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n nodi eu bod eisiau mwy o wasanaethau yn y gymuned a mwy o gyfleoedd i ddilyn gwahanol ddiddordebau.<br>▪ Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y canolfannau presennol yn anghyson ac yn gyfyngedig. |
| 3.Ariannol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r gwahaniaeth yn y costau uned ar gyfer y gwasanaethau<br>▪ Mae'r gwasanaethau mwy costus yn gwasanaethu'r unigolion mwy abl<br>▪ Ar hyn o bryd mae adnoddau ariannol yn cael eu clymu i redeg pedwar gwasanaeth ar wahân wedi eu lleoli mewn adeiladau gwahanol. |
| 4.Cludiant | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r pellteroedd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu teithio yn ddyddiol ar hyn o bryd er mwyn cyrraedd y canolfannau. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r ffaith bod angen adnewyddu a moderneiddio'r holl adeiladau, i wahanol raddau. |
| 6.Materion cyffredinol | ▪ Dim newid = ni fydd yn tarfu ar ddefnyddwyr gwasanaeth | |

| **6.2 Cau'r pedair canolfan - darparwyr allanol i ddarparu'r ddarpariaeth gyfan** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | ▪ Yn gyson, mae darparwyr allanol wedi arddangos y gallu i addasu i ofynion defnyddwyr gwasanaeth<br>▪ Byddai rhyddhau'r arian oddi wrth y darparwr mewnol yn caniatáu buddsoddi mewn opsiynau mwy creadigol yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar y cwsmer<br>▪ Bydd y fanyleb gwasanaeth newydd ar gyfer y fframwaith yn seiliedig ar ganlyniadau ac egwyddorion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. | ▪ |
| 2.Strategaeth | | ▪ Byddai'n rhaid i'r Cyngor fuddsoddi yn yr arbenigedd a'r adnoddau angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth.<br>▪ Byddai'n rhaid parhau i ddarparu gwasanaeth "hyb galw heibio" cwbl hygyrch mewn lleoliad canolog ar yr ynys ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth - nid yw hyn yn cael ei ddarparu'n allanol ar hyn o bryd. |

| **6.2 Cau'r pedair canolfan - darparwyr allanol i ddarparu'r ddarpariaeth gyfan** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Mae defnyddwyr gwasanaeth wedi nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r gwasanaethau mewnol - ac y dylai gwasanaethau allanol ategu'r gwasanaeth allanol yn hytrach na chymryd ei le'n gyfan gwbl. |
| 3.Ariannol | ▪ Ar hyn o bryd mae cost uned yr holl ddarparwyr allanol yn is na chost uned y canolfannau mewnol (er bod y gwasanaethau hynny yn rhai ar gyfer pobl sydd ag anghenion llai cymhleth).<br>▪ Arbediad ariannol o ganlyniad i gau un ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf o gael gwared ar safleoedd | ▪ Ar hyn o bryd nid yw darparwyr allanol yn darparu gwasanaethau i'r unigolion hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Byddai'n rhaid comisiynu'r gwasanaeth hwn yn benodol a byddai angen buddsoddiad sylweddol. |
| 4.Cludiant | | ▪ Gallai logisteg cydlynu darpariaeth ddydd wedi ei allanoli'n gyfan gwbl fod y tu hwnt i adnoddau presennol. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | ▪ Gallai'r cyngor gael gwared ar yr adeiladau presennol a defnyddio'r derbyniadau cyfalaf i ddatblygu gwasanaethau yn y gymuned. | ▪ Byddai'n rhaid i ni gael sicrwydd bod y ddarpariaeth allanol newydd yn ei chyfanrwydd yn diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth. |
| 6.Materion cyffredinol | | • Colli staff hynod o gymwys a cholli arbenigedd. |

| **6.3 Cadw tair canolfan a chau un = Dim newid i Morswyn, Gors Felen na Blaen y Coed ond cau Gerddi Haulfre yn unig** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Mae'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeilad" presennol sy'n cyfyngu ar gyflawniad unigolion<br>▪ Nid yw'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned. |
| 3.Ariannol | ▪ Cau'r ganolfan ddrutaf, sy'n costio £84.21 y diwrnod<br>▪ Gallai'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n mynychu Gerddi Haulfre ar hyn o bryd ddewis mynd i wasanaethau tebyg a ddarperir gan ddarparwyr allanol sydd ond yn codi 41% i 58% o'r gost bresennol.<br>▪ Mae'r darparwyr allanol eisoes yn darparu cyfleoedd yn yr awyr agored o ansawdd uchel, tebyg i'r rhai a ddarperir yng Ngerddi Haulfre, am bron i 60% o'r gost. | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn parhau i gael eu clymu o ganlyniad i redeg tri gwasanaeth ar wahân. |

| **6.3 Cadw tair canolfan a chau un = Dim newid i Morswyn, Gors Felen na Blaen y Coed ond cau Gerddi Haulfre yn unig** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 4.Cludiant | ▪ Llai o amser teithio i'r unigolion sy'n mynychu Gerddi Haulfre os ydynt yn mynd i ganolfan amgen.<br>▪ Mae 100% o'r rhai sy'n mynychu Gerddi ar hyn o bryd yn byw tu allan i'r ward ac yn teithio naill ai ar gludiant cyhoeddus neu ar fysiau CCM (tablau 4.4.1 a 4.4.2).<br>▪ Mae 73% o'r unigolion sy'n mynychu Gerddi yn byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan (tabl 4.4.3).<br>▪ Y rhai sy'n mynychu Gerddi sydd â'r daith ddwyffordd gyfartalog ddyddiol hiraf o bron i 2 awr yr un (tabl 4.4.6). Gellir eu cynorthwyo i deithio i ddarpariaeth amgen sydd yn debygol o olygu llai o amser teithio.<br>▪ Petai Gerddi yn cau a'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn mynd i Gors Felen, y pellter cyfartalog newydd o'r cartref fyddai 6.8 milltir o gymharu â'r pellter cyfartalog presennol o 15.5 milltir i Gerddi (tabl 4.4.8).<br>Fodd bynnag, rhagwelir y byddai'n well gan unigolion sy'n mynd i Gerddi ar hyn o bryd fynychu gwasanaeth mwy cymunedol ei naws na Gors Felen. | ▪ Byddai rhan helaeth o'r gost cludiant yn parhau ar gyfer y tair canolfan arall. |
| 5. Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r gost o adnewyddu a chynnal a chadw'r tair canolfan arall. |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| **6.4 Cadw tair canolfan a chau un = Dim newid i Morswyn, Gors Felen neu Gerddi Haulfre ond cau Blaen y Coed yn unig** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol<br>▪ Nid yw'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned. |
| 3.Ariannol | ▪ Arbediad ariannol o ganlyniad i gau un ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf posibl o gael gwared ar y safle | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn cael eu clymu i redeg tri gwasanaeth ar wahân.<br>▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol. |

| 6.4 Cadw tair canolfan a chau un = Dim newid i Morswyn, Gors Felen neu Gerddi Haulfre ond cau Blaen y Coed yn unig | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol |
| 4.Cludiant | ▪ Mae 92% o fynychwyr presennol BYC yn byw tu allan i'r ward ac mae'r mwyafrif yn teithio naill ai yn eu car eu hunain neu ar fysiau CCM (tablau 4.4.1 a 4.4.2).<br>▪ Mae 58% o fynychwyr BYC yn byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan (tabl 4.4.3).<br>▪ Mynychwyr BYC sydd â'r 2ail daith ddwyffordd ddyddiol gyfartalog hiraf, sef bron i 1 awr 40 munud yr un (tabl 4.4.6). Gellir eu cynorthwyo i deithio i ddarpariaeth amgen sy'n debygol o olygu llai o amser teithio.<br>▪ Petai BYC yn cau a'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn symud i Gors Felen, y pellter cyfartalog newydd o'r cartref fyddai 7.5 milltir, o gymharu â'r pellter cyfartalog presennol o 12.7 milltir i Blaen y Coed (tabl 4.4.8). | ▪ Byddai'r rhan fwyaf o'r gost cludiant yn parhau ar gyfer y dair ganolfan arall. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | ▪ Gallai rhywfaint o dderbyniad cyfalaf gael ei gynhyrchu o ganlyniad i gael gwared ar yr adeilad. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â chost adnewyddu a chynnal a chadw'r canolfannau eraill.<br>▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r rhyngddibyniaethau eraill rhwng Gerddi Haulfre a Blaen y Coed – mae defnyddwyr gwasanaeth Gerddi Haulfre yn defnyddio cyfleusterau hanfodol yn adeilad Blaen y Coed. |
| 6. Materion cyffredinol | | |

| 6.5 Cadw tair canolfan a chau un yn unig = Dim newid i Morswyn, Blaen y Coed neu Gerddi Haulfre a chau Gors Felen yn unig | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol.<br>▪ Mae perygl na fydd canlyniadau personol yr unigolion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu cyflawni tra bod pobl ag anghenion llai cymhleth yn parhau i fod mewn gwasanaeth wedi'i leoli mewn adeilad. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeilad" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigolion<br>▪ Nid yw'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned |
| 3.Ariannol | ▪ Arbediad ariannol o gau un ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf o gael gwared ar y safle | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn cael eu clymu i redeg tri gwasanaeth ar wahân. |

| 6.5 Cadw tair canolfan a chau un yn unig = Dim newid i Morswyn, Blaen y Coed neu Gerddi Haulfre a chau Gors Felen yn unig | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Byddai'n rhaid cymryd cost ychwanegol darparu gwasanaeth i unigolion ag anghenion mwy cymhleth i ystyriaeth petai Gors Felen yn cau. |
| 4.Cludiant | | ▪ Byddai rhan fwyaf o'r gost cludiant yn parhau ar gyfer y tair ganolfan arall<br>▪ Mae rhan fwyaf o fynychwyr presennol Gors Felen (54%) yn byw yn y ward ac mae'r mwyafrif yn teithio naill ai yn eu car eu hunain neu ar fysiau CCM (tablau 4.4.1 a 4.4.2).<br>▪ Mae 79% o fynychwyr Gors Felen yn byw o fewn 10 milltir i'r ganolfan (tabl 4.4.3).<br>▪ Mynychwyr Gors Felen sydd â'r 2ail daith ddwyffordd gyfartalog dyddiol fyrraf o bron i 1 awr yr un (tabl 4.4.6). |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Adeilad Gors Felen yw'r mwyaf addas i bwrpas o'r adnoddau presennol ac mae potensial i'w ehangu a'i wella. |
| 6. Materion cyffredinol | ▪ Rhyddhau'r safle cyfan i'r Cyngor ei ddefnyddio | |

| 6.6 Cadw tair canolfan a chau un = Dim newid i Gors Felen, Blaen y Coed na Gerddi Haulfre ond cau Morswyn yn unig | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio fwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol<br>▪ Nid yw'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned |
| 3.Ariannol | ▪ Arbediad ariannol o gau un ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf o gael gwared ar y safle | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn cael eu clymu i redeg tri gwasanaeth ar wahân. |
| 4.Cludiant | ▪ Mae 52% o'r unigolion sy'n mynychu Morswyn ar hyn o bryd yn byw tu allan i'r ward ac mae'r mwyafrif yn teithio yn eu ceir eu hunain neu ar fysiau CCM (tablau 4.4.1 a 4.4.2) | ▪ Dim ond 33% o'r unigolion sy'n mynychu Morswyn sy'n byw mwy na 10 milltir o'r ganolfan (tabl 4.4.3).<br>▪ Yr unigolion sy'n mynychu Morswyn sydd â'r daith ddwyffordd ddyddiol fyrraf o 50 munud (tabl 4.4.6). Byddai modd eu cynorthwyo i deithio i ddarpariaeth allanol amgen sydd yn debygol o fod yn debyg o ran hyd y daith.<br>▪ Petai Morswyn yn cau a'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn mynd i Gors Felen, byddai hyd cyfartalog y daith yn 14 milltir o gymharu â phellter cyfartalog cyfredol o 6 milltir i Morswyn (tabl 4.4.8). |

| **6.6 Cadw tair canolfan a chau un = Dim newid i Gors Felen, Blaen y Coed na Gerddi Haulfre ond cau Morswyn yn unig** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | ▪ Adeilad Morswyn yw'r lleiaf addas i bwrpas o'r canolfannau ac mae angen buddsoddiad arwyddocaol | ▪ Byddai cadw'r canolfannau eraill fel y maent yn golygu y byddai'n rhaid buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu.<br>▪ Nid oes gan y gwasanaethau eraill y capasiti i dderbyn yr unigolion ag anghenion mwy cymhleth sy'n mynychu Morswyn ar hyn o bryd. |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| **6.7 Cadw dwy ganolfan a chau dwy = Dim newid i Morswyn a Blaen y Coed ond cau Gors Felen a Gerddi Haulfre** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol.<br>▪ Mae perygl na fydd canlyniadau personol yr unigolion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu cyflawni tra bod pobl ag anghenion llai cymhleth yn parhau i fod mewn gwasanaeth wedi'i leoli mewn adeilad. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol<br>▪ Nid yw'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned |
| 3.Ariannol | | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn parhau i gael eu clymu i redeg dau wasanaeth ar wahân |
| 4.Cludiant | ▪ Arbediad ariannol o gau dwy ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf posib o gael gwared ar safleoedd eraill | ▪ Byddai'r gwasanaethau mewnol yn cael eu pegynnu naill ben yr ynys a'r llall gyda'r posibilrwydd y byddai taith ddyddiol nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth hyd yn oed yn hirach nag ydyw ar hyn o bryd. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Mae cadw'r canolfannau eraill fel ag y maent yn golygu y byddai'n rhaid buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu.<br>▪ Gors Felen yw'r adeilad mwyaf hygyrch ac sydd â'r adnoddau gorau o'r adeiladau cyfredol – byddai'n afresymol cau adnodd o'r fath a buddsoddi i'w atgynhyrchu yn rhywle arall.<br>▪ Nid oes gan y gwasanaethau eraill y capasiti i dderbyn yr unigolion hynny ag anghenion mwy cymhleth sydd yn mynychu Morswyn ar hyn o bryd |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| 6.8 Cadw dwy ganolfan a chau dwy = Dim newid i Morswyn a Gerddi Haulfre ond cau Blaen y Coed a Gors Felen | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol<br>▪ Mae perygl na fydd canlyniadau personol yr unigolion sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu cyflawni tra bod pobl ag anghenion llai cymhleth yn parhau i fod mewn gwasanaeth wedi'i leoli mewn adeilad. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol<br>▪ Nid yw'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned |
| 3.Ariannol | ▪ Arbediad ariannol o gau dwy ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf posib o gael gwared ar safleoedd eraill | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn parhau i gael eu clymu i redeg dau wasanaeth. |
| 4.Cludiant | | ▪ Byddai'r gwasanaethau mewnol yn cael eu pegynu naill ben yr ynys a'r llall gyda'r posibilrwydd y byddai taith ddyddiol nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth hyd yn oed yn hirach nag ydyw ar hyn o bryd. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Adeilad Morswyn yw'r lleiaf addas i bwrpas o'r adeiladau cyfredol - nid oes sgôp i ehangu a byddai angen buddsoddiad sylweddol i ddiwallu anghenion ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>▪ Byddai defnyddwyr Gerddi Haulfre yn parhau i fod angen cyfleusterau hygyrch ar y safle fyddai'n golygu buddsoddiad sylweddol. |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| 6.9 Cadw dwy ganolfan a chau dwy = Dim newid i Morswyn a Gors Felen ond cau Blaen y Coed a Gerddi Haulfre | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | ▪ Byddai cadw canolfan Gors Felen yn sicrhau fod anghenion yr unigolion â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael sylw. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo'n llawn dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n llawn gynnig dewis ehangach o gyfleoedd<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo'n llawn ddatrysiad sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol |

| **6.9 Cadw dwy ganolfan a chau dwy = Dim newid i Morswyn a Gors Felen ond cau Blaen y Coed a Gerddi Haulfre** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| | | ▪ Byddai'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned<br>▪ Ni fyddai'n caniatáu datblygu canolfan ragoriaeth i gefnogi pobl ag anghenion mwy cymhleth – rhannu arbenigedd rhwng dau safle. |
| 3.Ariannol | ▪ Arbediad ariannol o gau dwy ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf posib o gael gwared ar y safleoedd eraill | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn parhau i gael eu clymu i redeg dau wasanaeth ar wahân. |
| 4.Cludiant | ▪ Byddai cau Blaen y Coed a Gerddi Haulfre yn golygu y byddai anghenion yr unigolion sy'n mynychu'r canolfannau hynny yn cael eu diwallu'n agosach i gartref ac o ganlyniad yn gostwng yr amser teithio dyddiol. | |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | ▪ Byddai cadw canolfan Gors Felen yn sicrhau fod yr adeilad mwyaf addas i bwrpas yn cael ei gadw. | ▪ Cadw'r adeilad lleiaf addas i bwrpas yn Morswyn – mae angen buddsoddiad sylweddol i'w adnewyddu a'i gynnal a'i gadw. |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| **6.10 Cadw dwy ganolfan a chau dwy = Dim newid i Gors Felen a Blaen y Coed ond cau Morswyn a Gerddi Haulfre** | | |
|---|---|---|
| Gyrwyr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Deilliannau | ▪ Bydd cadw canolfan Gors Felen yn sicrhau bod anghenion pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael sylw. | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo'n llawn ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo'n llawn ddatrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni'r canlyniadau unigol. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol<br>▪ Byddai'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned. |
| 3.Ariannol | ▪ Arbedion ariannol o gau dwy ganolfan<br>▪ Derbyniadau cyfalaf o gael gwared ar safleoedd eraill | ▪ Byddai adnoddau ariannol yn parhau i gael eu clymu o ganlyniad i redeg gwasanaethau ar wahân. |
| 4.Cludiant | | ▪ Parhau i gadw canolfan Blaen y Coed ar agor pan fod 92% o'r defnyddwyr gwasanaeth presennol yn byw tu allan i'r ward. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | ▪ Adeilad Morswyn yw'r lleiaf addas i bwrpas o'r canolfannau ac mae angen buddsoddiad sylweddol | ▪ Byddai angen buddsoddi i adnewyddu a chynnal a chadw Blaen y Coed. |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| 6.11 Cadw dwy ganolfan a chau dwy = Dim newid i Blaen y Coed a Gerddi Haulfre ond cau Morswyn a Gors Felen | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | ▪ Y ddwy ganolfan ar un safle – byddai modd iddynt gynnig ystod eang o weithgareddau tu mewn ac yn yr awyr agored – ond byddai angen buddsoddiad sylweddol. | ▪ Byddai peth dyblygu gwasanaethau rhwng y darparwyr allanol a'r gwasanaethau garddio yng Ngerddi Haulfre |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Byddai'n cynnal y gwasanaethau "mewn adeiladau" presennol sydd â chyfyngiadau o ran cyflawniad unigol<br>▪ Byddai'n rhyddhau adnoddau i fuddsoddi mewn gwasanaethau yn y gymuned.<br>▪ Ni fyddai'r safle yn Llangoed yn addas fel hyb "galw heibio" ar gyfer unigolion fyddai'n gwneud gweithgareddau yn y gymuned oherwydd ei bellter oddi wrth wasanaethau eraill ar draws yr ynys. |
| 3.Ariannol | ▪ Arbediad ariannol o gau dwy ganolfan<br>▪ Derbyniad cyfalaf o gael gwared ar safleoedd eraill | ▪ Byddai adnoddau ariannol wedi cael eu clymu i redeg dau wasanaeth ar wahân. |
| 4.Cludiant | | ▪ Safle Haulfre yw'r pellaf o ran pellter i'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth i deithio yno bob dydd – byddai costau cludiant yn cynyddu'n sylweddol. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Mae Gerddi angen buddsoddiad sylweddol<br>▪ Mae parcio a chludiant yn broblem – mae'n gyfyngedig ym mhob rhan o'r safle.<br>▪ Nid yw cael mynediad i'r safle'n hawdd drwy'r pentref.<br>▪ Mae Gors Felen yn adeilad pwrpasol gyda lle tu allan i ymestyn. |
| 6.Materion cyffredinol | | • Dyfodol y safle o ran darparu gofal cymdeithasol – bydd y cartref preswyl ar y safle yn cau pan ddatblygir cyfleusterau gofal ychwanegol yn ardal Seiriol. |

| 6.12 Cadw un ganolfan a chau tair = Cadw Morswyn ond cau Gors Felen, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo'n llawn ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo'n llawn ddatrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni'r canlyniadau unigol. |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Morswyn yw'r adeilad lleiaf hygyrch i unigolion – yn arbennig y rhai sydd â phroblemau symudedd – byddai cyfleoedd yn cael eu cyfyngu'n sylweddol. |
| 3.Ariannol | ▪ Arbediad ariannol o gau tair canolfan<br>▪ Derbyniad ariannol o gael gwared ar safleoedd | ▪ Byddai'n rhaid cymryd y gost o ddarparu gwasanaeth i unigolion ag anghenion mwy cymhleth i ystyriaeth petai Gors Felen yn cau. |

| **6.12 Cadw un ganolfan a chau tair = Cadw Morswyn ond cau Gors Felen, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 4.Cludiant | | ▪ Byddai cludo pawb i Gaergybi yn cynyddu amser teithio a'r pellter o gartrefi unigolion.<br>▪ Yr effaith amgylcheddol ar yr ardal yn sgil cynnydd yn nifer y bysiau mini fyddai'n cyrraedd o leiaf ddwywaith y dydd. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | ▪ | ▪ Adeilad Morswyn yw'r lleiaf addas i bwrpas o'r canolfannau ac mae angen buddsoddiad sylweddol.<br>▪ Nid yw'n gallu cymryd mwy o anghenion cymhleth o ganolfannau eraill<br>▪ Dim lle i ymestyn yn y dyfodol.<br>▪ Lle tu allan yn gyfyngedig. |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| **6.13 Cadw un ganolfan a chau tair = Cadw Blaen y Coed ond cau Morswyn, Gors Felen a Gerddi Haulfre** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Manteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | ▪ | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleoedd.<br>▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol.<br>▪ |
| 2.Strategaeth | | ▪ O'r adborth a gafwyd i'r strategaeth, byddai diffyg cyfatebiaeth yn parhau rhwng y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn y mae pobl ei eisiau ar gyfer y dyfodol.<br>▪ Blaen y Coed yw'r un pellaf i ffwrdd i'r mwyafrif o unigolion.<br>▪ Byddai llai o gyfleoedd i bobl ag anghenion cymhleth.<br>▪ Nid yw Blaen y Coed yn cynnig gweithgareddau yn y gymuned a byddai'n anaddas fel hyb "galw heibio". |
| 3.Ariannol | ▪ Arbedion ariannol o gau tair canolfan<br>▪ Derbyniadau cyfalaf o gael gwared ar safleoedd | ▪ Byddai angen ystyried cost ychwanegol darparu gwasanaeth i unigolion ag anghenion mwy cymhleth pe bai Gors Felen yn cau |
| 4.Cludiant | | ▪ Byddai cludo pawb i Langoed yn cynyddu'r amser teithio a phellteroedd o'r cartref.<br>▪ Effaith amgylcheddol y cynnydd yn nifer y bysus mini sy'n mynychu o leiaf ddwywaith y dydd. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Byddai angen buddsoddiad sylweddol ar Blaen y Coed i gwrdd ag anghenion pobl. |
| 6.Materion cyffredinol | | |

| **6.14 Cadw un ganolfan a chau tair = Cadw Gerddi Haulfre ond cau Morswyn, Gors Felen a Blaen y Coed** | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Anfanteision | Anfanteision |
| 1.Canlyniadau | | ▪ Nid yw'n mynd i'r afael â'r newidiadau mewn deddfwriaeth nac yn hyrwyddo'n llawn ddull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.<br>▪ Nid yw'n cynnig dewis ehangach o gyfleon. |

| 6.14 Cadw un ganolfan a chau tair = Cadw Gerddi Haulfre ond cau Morswyn, Gors Felen a Blaen y Coed | | |
|---|---|---|
| Gyrrwr | Anfanteision | Anfanteision |
| | | ▪ Nid yw'n hyrwyddo datrysiadau sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned.<br>▪ Nid yw'n darparu gwasanaeth gyda ffocws clir ar gyflawni canlyniadau unigol.<br>▪ |
| 2.Strategaeth | | ▪ Ni all Gerddi Haulfre, gan ei fod yn wasanaeth garddio awyr agored, gynnig yr ystod eang o gyfleoedd sydd eu hangen ar ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>▪ Mae'r cyfleusterau yn Gerddi Haulfre yn anaddas ar gyfer gweithgareddau pob tywydd<br>▪ Mae'r cyfleusterau yn Gerddi Haulfre yn anaddas i bobl ag anghenion cymhleth a / neu broblemau symudedd. |
| 3.Ariannol | ▪ Arbedion ariannol o gau tair canolfan<br>▪ Derbyniadau cyfalaf o gael gwared ar safleoedd | ▪ Byddai angen ystyried cost ychwanegol darparu gwasanaeth i unigolion ag anghenion mwy cymhleth pe bai Gors Felen yn cau.<br>▪ Ar hyn o bryd Gerddi Haulfre yw'r gwasanaeth drutaf gyda'r nifer isaf o leoedd. |
| 4.Cludiant | | ▪ Byddai cludo pawb i Langoed yn cynyddu'r amser teithio a phellteroedd o'r cartref.<br>▪ Effaith amgylcheddol cynnydd yn nifer y bysiau mini sy'n mynychu o leiaf ddwywaith y dydd. |
| 5.Yr adeilad a'r amgylchedd ffisegol | | ▪ Er mwyn cadw gwasanaeth Gerddi Haulfre, byddai angen cadw adeilad Blaen y Coed hefyd. |
| 6.Materion cyffredinol | ▪ Byddai'n cadw gwasanaeth y mae meddwl mawr ohono'n lleol. | |

Felly nid yw'r dewisiadau amgen rhesymol a ystyrir uchod yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r gyrwyr allweddol (a drafodir yn adran 5) y mae'r gwasanaethau dydd mewnol yn eu hwynebu, ac o ganlyniad y cynnig i: "**Datblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre**" yw'r cynnig a gyflwynir gan y Cyngor.

## 7. GWYBODAETH ARIANNOL ARALL

### 7.1 Cyllidebau'r Canolfannau Dydd

Mae'r gwerthusiad ariannol isod yn rhoi manylion y cyllidebau a'r canlyniadau ar gyfer y canolfannau yn 2018/19:

| | Morswyn | Gors Felen | Blaen y Coed | Gerddi Haulfre | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Net 2018/19** | £201k | £256k | £196k | £180k | £833k |
| **Canlyniadau gwirioneddol 2018/19** | 196k | £260k | £185k | £192k | £833k |
| **(Tanwariant) / Gorwariant** | (£5k) | £4k | (£11k) | £12k | - |


### 7.2 Costau Cludiant

Ar hyn o bryd mae Cludiant Cymunedol Môn yn darparu cludiant i'r canolfannau dydd ac oddi yno ar gyfer dros 50% o'r rheini sy'n mynychu. Nid yw cost cludiant wedi'i chynnwys yn y ffigyrau uchod nac yn y costau uned y manylir arnynt yn Adran 5.3 (Ariannol). Mae'n ddiogel tybio, pan fydd unigolyn angen cludiant i ganolfan ddydd, y bydd gwir gostau'r gwasanaeth yn uwch. Mae'n anochel y bydd cael hyb canolog yn lleihau'r gost sy'n gysylltiedig â chludiant.

## 8. CASGLIAD

Bydd adolygu ac ailddylunio cyfleon dydd a gwneud penderfyniadau ar y ddarpariaeth yn y dyfodol yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu mewn ffordd sy'n cwrdd â chanlyniadau unigol, yn hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth unigolion, yn osgoi dyblygu cefnogaeth ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r cyngor.

**Diwedd**




Key

- Mencap Hub
- Internal Provider
- External Provider
- Active Woods

0 2 4 6 8 10 km

Scale at A3: 1:150,000

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

LD DAY SERVICES MAP
LD DAY SERVICES

**FIGURE 1-0**
**LD DAY SERVICES MAP**

NOVEMBER 2019

PROJ. REF. LDDS / DFS

file: G:\Rheoli_Shared\Perfformiad_Oedolion\National Statistics 2019-2020\QGIS Mapping\LD_Day_Service_Map.qgs

Contains public sector information licensed under the Open Government Licence v3.0.
Based upon the Ordnance Survey Map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright.

**Cynnig i:**

**“Datblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre. "**

# ASESIAD O’R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg / This document is also available in English.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cychwyn yr asesiad** | 11 Tachwedd 2019 |
| **Y Swyddog sy’n gyfrifol am yr asesiad** | Sandra Thomas – Rheolwr Rhaglen |
| **Dyddiad yr asesiad** | Mae hon yn ddogfen weithredol a bydd yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Bydd unrhyw effeithiau ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i’r ymgynghoriad yn cael eu hadlewyrchu mewn fersiwn ddiwygiedig a gyhoeddir fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori maes o law. |

Dyddiad cychwyn : 11/11/19 Dyddiad cwblhau 08/01/20

| RHAN A - Cam 1: Paratoi | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Pob gwasanaeth dydd / cyfle dydd yn y maes anabledd dysgu<br><br>1 Y gwasanaethau dydd mewnol i bobl ag anableddau dysgu:<br><br>• Morswyn, Caergybi<br>• Gors Felen, Llangefni<br>• Blaen y Coed, Llangoed<br>• Gerddi Haulfre, Llangoed<br><br>2. Gwasanaethau dydd allanol |
| **2 - Ydy'r polisi hwn yn un newydd neu un sy'n bodoli eisoes?** | Polisi newydd. |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y polisi hwn?** | Y cynnig yw datblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre.<br>Rhagwelir y bydd pob darparwr allanol yn symud yn y pen draw i gytundeb fframwaith lle rhoddir dewis a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu lleoliadau, gyda chanllawiau clir ar gynnydd yr unigolion a'u cynhwysiant. Bydd symud i gytundeb fframwaith hefyd yn sicrhau bod gan ddarparwyr eraill fynediad i farchnad reoledig ar gyfer darparu cyfleoedd dydd.<br>Mewn perthynas â'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain, ni fydd unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth yn colli ei hawl i wasanaeth dydd yn sgil y newid hwn. Unwaith yr asesir bod unigolyn yn gymwys i gael gwasanaeth dydd a'i fod angen gwasanaeth dydd, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r angen hwnnw. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer dinasyddion Ynys Môn o ansawdd uchel. Os nad dyna fyddai'r achos, byddai'r Awdurdod yn cefnogi'r darparwr i wella safonau ac ansawdd y gofal neu'n dod o hyd i |

## RHAN A - Cam 1: Paratoi

| | |
|---|---|
| | leoliad arall sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn. |
| **4 - Pwy sydd yn gyfrifol am y polisi / gwaith sy'n cael ei asesu?** | ALWYN RHYS JONES – CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL |
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer yr asesiad hwn?** | Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen |
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan mewn cynnal yr asesiad hwn?** | Rheolwr Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion – Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu<br>Rheolwr Busnes, Perfformiad a'r Rhaglen Gorfforaethol,<br>Rheolwr Busnes yr Uned Ddarparu<br>Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Dydd - Uned Ddarparu<br>Arweinydd Tîm Anabledd Dysgu - Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>Rheolwr Busnes Gofal Cymdeithasol |
| **7 - Oes yna gyswllt rhwng y polisi hwn a meysydd gwaith / polisïau eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu cymryd ystyriaeth wrth asesu'r effaith? | • Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014<br>• Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynllun y Cyngor 2017-2022.<br>• Datganiad Llywodraeth Cymru ar Bolisi ac Ymarfer i Oedolion ag Anabledd Dysgu 2007.<br>• Canllawiau ymarfer a strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl ag anabledd dysgu (2011) Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br>• Deddf Galluedd Meddyliol |

## RHAN A - Cam 1: Paratoi

| | |
|---|---|
| **8 - Pwy yw'r cydranddeiliad allweddol)?** | • Oedolion ag anabledd dysgu sy'n mynychu gwasanaethau dydd mewnol<br>• Eu teuluoedd a'u gofalwyr<br>• Rheolwyr a staff gwasanaethau mewnol<br>• Darparwyr allanol cyfleoedd dydd<br>• Sefydliadau trydydd sector<br>• Staff Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Ynys Môn |

| 9 - Ydi'r polisi yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod oherwydd oed; anabledd; rhyw; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; ethnigrwydd neu genedligrwydd; crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol? | Ydi | Nac ydi |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | ✓ | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | ✓ | |
| **Meithrin perthynas dda** | ✓ | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | ✓ | |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | |
|---|---|
| **10 - A yw'r polisi / maes gwaith hwn yn sicrhau cydraddoldeb i'r iaith Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hyrwyddo dull rhagweithiol o gynnig gwasanaeth yn y Gymraeg yn unol â Fframwaith Strategaeth Llywodraeth Cymru 'Mwy Na Geiriau'. Rydym yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Cymraeg y Cyngor wrth drefnu a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. |
| **11 - Oes cyfle trwy'r polisi / maes gwaith hwn i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Bydd nifer fawr o ddefnyddwyr gwasanaeth yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Rhoddir sylw dyladwy i anghenion ieithyddol ac rydym yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cyfathrebu â ni yn yr iaith o'u dewis.<br>Eisoes mae'n rhaid i bob darparwr (mewnol ac allanol) ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a bod yn ddiwylliannol sensitif. |
| **12 – Pa gyfraniad posib y mae'r polisi / maes gwaith hwn yn ei wneud tuag at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn ffynnu ac yn llewyrchus?** | Yn ystod yr ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth yn 2019, mynegodd llawer ddiddordeb mewn helpu yn eu cymunedau ac mewn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymdeithas. Rhagwelir y bydd gweithredu'r cynnig hwn yn sicrhau y gellir darparu mwy o gyfleoedd o'r fath. |
| **13 - Oes yna unrhyw faterion y mae angen eu hystyried o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth ydynt?**<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | Gallai newid y ffordd y mae gwasanaethau dydd yn cael eu darparu gael effaith ar hawliau dynol unigolyn mewn perthynas â:<br>Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu - yn yr ystyr na fydd defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth hwnnw mwyach ac efallai y bydd yn rhaid eu hail-leoli i wasanaethau amgen i ffwrdd o'u ffrindiau a'u cymdeithion.<br>Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i addysg - yn yr ystyr bod gan y gwasanaeth elfen addysgol. |
| **14 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r polisi hwn?** | Mae rheolwyr a staff yr amrywiol unedau yn ymwybodol bod adolygiad o'r gwasanaethau wedi cychwyn. Cafodd defnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'r staff gyfleoedd i adolygu a rhoi sylwadau ar fersiwn ddrafft y Strategaeth Cyfleoedd Dydd newydd ym mis Ebrill a mis Mai 2019 - dylanwadodd canlyniadau'r ymgysylltiad hwn ar y Strategaeth derfynol ac ysgogodd y cynnig hwn. |

## Rhan A - Cam 3: Ystyried yr effaith debygol

** Ar gyfer pob nodwedd warchodedig, nodwch yn y golofn ar y dde yn y tabl isod:
(1) Unrhyw adroddiadau, ystadegau, gwefannau, dolenni ac ati sy'n berthnasol i'ch dogfen / cynnig ac a ddefnyddiwyd i lywio eich asesiad, a / neu
(2) Unrhyw wybodaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth neu staff; a / neu
(3) Unrhyw wybodaeth arall sydd wedi llywio eich asesiad o'r effaith bosib

** I benderfynu'r effaith bosib, dewiswch o'r canlynol:
Negyddol uchel; Negyddol Canolig; Negyddol Isel; Niwtral; Cadarnhaol Isel; Cadarnhaol Canolig; Cadarnhaol Uchel; Dim effaith / Ddim yn berthnasol

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau lliniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **Dim effaith** | | |
| **Anabledd** | **Cadarnhaol Canolig** | Newid i'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd i bobl ag anableddau. Dylai'r newidiadau hyn gynhyrchu cyfleoedd newydd a sicrhau bod gan bobl fwy o gysylltiad gyda'u cymunedau. Bydd mwy o ddewis a rheolaeth yn golygu y bydd pobl yn gallu dod o hyd i'r cyfleoedd gorau i gyflawni eu canlyniadau.<br><br>Mae risg gydag unrhyw newid y bydd pobl yn ei weld fel rhywbeth negyddol. | Parhau i ymgysylltu a rhannu gwybodaeth gyda'r unigolion yr effeithir arnynt. Bydd pobl yn cael cymorth i edrych ar gyfleoedd amgen gyda chefnogaeth staff sy'n eu hadnabod yn dda. Ar hyn o bryd mae unigolion sydd yn y gwasanaethau mewnol yn cael cymorth i nodi eu canlyniadau personol a sut y gellid eu cyflawni.<br><br>Mae delio â newid yn sgil bywyd pwysig ac mae gan y gwasanaeth brofiad o gynorthwyo unigolion i addasu. |
| **Rhyw** | **Dim effaith** | | |
| **Newid Rhyw** | **Dim effaith** | | |

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau lliniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | **Dim effaith** | | |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | **Dim effaith** | | |
| **Crefydd neu Gred** | **Dim effaith** | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **Dim effaith** | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | **Cadarnhaol isel** | Dylai'r newidiadau gynhyrchu cyfleoedd newydd a chynyddu cysylltiad pobl â'u cymunedau, yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. | |
| **Hawliau Dynol** | **Cadarnhaol isel** | Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu - efallai na fydd defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth hwnnw mwyach ac efallai y bydd yn rhaid eu hail-leoli i wasanaethau amgen i ffwrdd oddi wrth eu ffrindiau a'u cymdeithion.<br><br>Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i addysg - yn yr ystyr bod gan y gwasanaeth elfen addysgol. | Bydd pobl sydd â diddordebau cyffredin ac sy'n ffrindiau yn cael cyfleoedd i lunio eu cynlluniau cymorth gyda'i gilydd.<br><br>Bydd gan lawer o'r cyfleoedd elfen hyfforddiant / addysg - yn enwedig y rheini sy'n gysylltiedig â gwneud cynnydd a chodi lefel sgiliau |

| RHAN A Cam 4: Canlyniad yr Asesiad | |
|---|---|
| **Ai canlyniad yr Asesiad Cychwynnol yw symud ymlaen i Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb?** | Ia |
| | **Cofnodi Rhesymau dros y Penderfyniad:**<br>Byddai'r cynnig dan sylw’n effeithio ar bobl ag anableddau amrywiol a bydd AEG llawn yn sicrhau bod unrhyw ganlyniadau negyddol naill ai'n cael eu lleihau neu eu lliniaru cymaint ag sy’n rhesymol bosib. |
| **Os na, oes unrhyw faterion y dylid rhoi sylw iddynt?** | |

Os ydych wedi penderfynu bod **angen Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb,** ewch ymlaen **i Ran B.**

Os mai’r penderfyniad yw **peidio symud ymlaen i Asesiad llawn o’r Effaith ar Gydraddoldeb** a fyddech cystal a dileu Rhan B o'r templed hwn a symud **i Ran C - Adroddiad ar y Canlyniad.**

Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

**Rhan B – Ar gyfer Asesiad Llawn yn unig**

**RHAN B – Cam 1: Archwilio’r wybodaeth a gasglwyd hyd yma**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Oes gennych chi wybodaeth ddigonol?<br>Cyfeiriwch at Ran A, Cam 2: Casglu Gwybodaeth am gymorth | Oes – cyn y cam ymgynghori |
| 2. | A allwch fwrw ymlaen â'r Polisi yn ystod yr AEG? | Na – asesir yr effaith lawn ar ôl ymgynghori |
| 3. | A yw'r wybodaeth a gasglwyd yn ymwneud â'r holl grwpiau gwarchodedig? | Ydi |

| | | |
|---|---|---|
| 4. | Pa wybodaeth ychwanegol (os o gwbl) sydd ei hangen? | Unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymgynghoriad |
| 5. | Sut ydych chi'n mynd i gasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen?<br>Nodwch pa gyrff cynrychiadol neu sefydliadau neu unigolion eraill y byddwch chi'n cysylltu â nhw neu'n ymgysylltu â nhw er mwyn cyflawni hyn | Defnyddwyr gwasanaeth<br>Teuluoedd<br>Gofalwyr<br>Gweithwyr Cefnogi<br>Staff yn y canolfannau<br>Darparwyr allanol<br>Partneriaid y trydydd sector<br>Aelodau etholedig |

**RHAN B – Cam 2: Barnu / asesu'r effaith bosib**

| Rhowch fanylion isod am yr effaith rydych chi wedi'i nodi:<br>**Cwblheir y adran hon ar ôl i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid ddod i ben** | | | |
|---|---|---|---|
| Grŵp Gwarchodedig | Negyddol | Cadarnhaol | Disgrifiwch yma pa dystiolaeth neu wybodaeth arall (e.e. cyfraniadau gan randdeiliaid) rydych chi wedi'u defnyddio er mwyn penderfynu natur a graddfa unrhyw effaith bosib |
| Oed | | | Dim Effaith |
| Anabledd | | ✓ | Cadarnhaol. |
| Rhyw | | | Dim Effaith |
| Newid Rhyw | | | Dim Effaith |
| Beichiogrwydd a Mamolaeth | | | Dim Effaith |
| Hil | | | Dim Effaith |
| Crefydd / Cred | | | Dim Effaith |
| Cyfeiriadedd Rhywiol | | | Dim Effaith |
| Yr Iaith Gymraeg | | ✓ | Cadarnhaol |
| Hawliau Dynol | | ✓ | Cadarnhaol |

**RHAN B – Cam 3: Ystyried y dewisiadau amgen**

| | | |
|---|---|---|
| Ystyriwch unrhyw ddewisiadau amgen i'r polisi a fydd yn lleihau, dileu neu'n lliniaru unrhyw effaith andwyol (fel y nodwyd yng Ngham 2)<br>**Cwblheir y adran hon ar ôl i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid ddod i ben.** | | |
| **1.** | Disgrifiwch unrhyw gamau lliniarol a gymerwyd i leihau effaith negyddol / andwyol? | |
| **2.** | A oes strategaeth ar gyfer delio ag unrhyw effeithiau negyddol na ellir eu hosgoi ond nad ydynt yn anghyfreithlon ac na ellir eu lliniaru? | |
| **3.** | Disgrifiwch unrhyw gamau a gymerwyd i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb, hy: newidiadau i'r polisi, rheoleiddio, arweiniad, cyfathrebu, monitro neu adolygu. | |
| **4.** | Pa newidiadau i'r Polisi sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i gynnal yr AEG hwn? | |

Ewch ymlaen i **Ran C** os gwelwch yn dda **– Adroddiad ar y Canlyniad.**

# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) – CANLYNIAD

## RHAN C – Cam 1: Adroddiad y Canlyniad

| | |
|---|---|
| Sefydliad: | Cyngor Sir Ynys Môn |

---

| | |
|---|---|
| Beth sy'n cael ei asesu:<br>(copi o Ran A - Cam 1) | Pob gwasanaeth dydd / cyfle dydd yn y maes anabledd dysgu<br><br>1 Y gwasanaethau dydd mewnol i bobl ag anableddau dysgu:<br><br>• Morswyn, Caergybi<br>• Gors Felen, Llangefni<br>• Blaen y Coed, Llangoed<br>• Gerddi Haulfre, Llangoed<br><br>2. Gwasanaethau dydd allanol |

| | |
|---|---|
| Crynodeb o'r Nodau ac Amcanion:<br>(copi o Rhan A – cam 1) | Y cynnig yw datblygu mwy o gyfleoedd yn y gymuned i bobl ag anabledd dysgu, ymestyn y ddarpariaeth yn Gors Felen a chau'r gwasanaethau ym Morswyn, Blaen y Coed a Gerddi Haulfre.<br>Rhagwelir y bydd pob darparwr allanol yn symud yn y pen draw i gytundeb fframwaith lle rhoddir dewis a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch eu lleoliadau, gyda chanllawiau clir ar gynnydd yr unigolion a'u cynhwysiant. Bydd symud i gytundeb fframwaith hefyd yn sicrhau bod gan ddarparwyr eraill fynediad i farchnad reoledig ar gyfer darparu cyfleoedd dydd.<br>Mewn perthynas â'r defnyddwyr gwasanaeth eu hunain, ni fydd unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth yn colli ei hawl i wasanaeth dydd yn sgil y newid hwn. Unwaith yr asesir bod unigolyn yn gymwys i gael gwasanaeth dydd a'i fod angen gwasanaeth dydd, |

| | |
|---|---|
| | mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r angen hwnnw. Mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb statudol i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer dinasyddion Ynys Môn o ansawdd uchel. Os nad dyna'r achos, byddai'r Awdurdod yn cefnogi'r darparwr i wella safonau ac ansawdd y gofal neu'n dod o hyd i leoliad arall sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn. |

| | |
|---|---|
| Aeth yr asesiad cychwynnol ymlaen i Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb? (RHAN A - Cam 4) | Do/ Naddo |
| | Cofnodwch y rhesymau am y penderfyniad |
| Os naddo, oes unrhyw faterion y mae angen rhoi sylw iddynt? | |
| Os do, beth oedd canlyniad yr asesiad llawn. | **I'W BENDERFYNU AR ÔL YMGYNGHORI AR Y CYNNIG** |

---

| | |
|---|---|
| A fydd y Polisi'n cael ei fabwysiadu / ei anfon ymlaen i'w gymeradwyo? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad? | **I'W BENDERFYNU AR ÔL YMGYNGHORI AR Y CYNNIG** |
| | Os na fydd, cofnodwch y rheswm os gwelwch yn dda ac unrhyw gamau pellach os oes angen rhai. |

| | |
|---|---|
| A oes trefniadau monitro ar waith? Beth ydynt? | |

| | | |
|---|---|---|
| Pwy yw'r Swyddog Arweiniol? | Enw: | Sandra Thomas |

| | | |
|---|---|---|
| | Teitl: | Rheolwr Rhaglen |
| | Adran: | Trawsnewid |
| Dyddiad Adolygu'r Polisi a'r Asesiad | | |

| | | |
|---|---|---|
| Enwau pawb sy'n ymwneud â chynnal yr asesiad hwn | Enw | Teitl |
| | | |
| | | |
| Noder os gwelwch yn dda: Dylid Atodi Cynllun Gweithredu i'r Adroddiad Canlyniad hwn cyn cwblhau | | |

**RHAN C – Cam 2: Cynllun Gweithredu**

Manylwch os gwelwch yn dda ar unrhyw gamau y cynlluniwyd i'w cymryd ar ôl cwblhau eich Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dylech gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effeithiau negyddol posib neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu i gynnal ymchwil bellach.

| Cyf | Camau arfaethedig | Swyddog Arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |